Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru




# Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol

Rosie Havers, Charlotte Morgan a Hannah Durrant

Gorffenaf 2024

www.wcpp.org.uk/cy/

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i chymhwyso. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, llunio, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r modd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a chyflwyno polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Arianwyr Craidd


**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Cyflwyniad** 6

**Themâu Tystiolaeth** 9

**Prif ganfyddiadau: Camau gweithredu ar gyfer cydweithredu amlsector effeithiol** 14

1a: Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin – canfyddiadau'r adolygiad 14

1b: Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin – canfyddiadau'r gweithdy 18

1c: Gweithgareddau ychwanegol ar gyfer datblygu diben cyffredin 21

2a: Trefniadau llywodraethu – canfyddiadau'r adolygiad 23

2b: Trefniadau llywodraethu – canfyddiadau'r gweithdy 28

2c: Trefniadau llywodraethu ychwanegol 33

3a: Mecanweithiau ariannol – canfyddiadau'r adolygiad 35

3b: Mecanweithiau ariannol – canfyddiadau'r gweithdy 38

3c: Mecanweithiau ariannol ychwanegol 42

**Casgliad** 45

**Atodiad 1: Dulliau Adolygu Tystiolaeth** 46

**Atodiad 2: Strategaeth chwilio am lenyddiaeth** 50

**Atodiad 3: Ffynonellau tystiolaeth** 55


**Ffigurau**


Ffigur 1: Lleoliadau astudiaethau achos cydweithredu amlsector ledled Cymru 7

Ffigur 2: Ffynonellau tystiolaeth ar gyfer adolygiad 'cam un' 8

Ffigur 3: Nodweddion a Ffactorau cydweithredu effeithiol 9

Ffigur 4: Camau Gweithredu a Swyddogaethau sy'n sail i gydweithredu effeithiol 11

Ffigur 5: Camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu cydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol (a nodwyd yn adolygiad tystiolaeth cam un) 12

Ffigur 6: Camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu cydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol (a nodwyd yn adolygiad tystiolaeth cam un a gweithdy cam dau) 44

Ffigur 7: Camau ac allbynnau'r prosiect 46

# Crynodeb

» Mae cydweithredu effeithiol rhwng sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus yn hanfodol i gefnogi gweithredu cymunedol a chynyddu lles cymunedol. Archwiliodd y prosiect hwn sut y gellir gwella cydweithredu. Cafodd ei lunio ar y cyd â'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, gan ymateb i ddiddordeb ar draws y bartneriaeth mewn pennu nid yn unig beth sy'n gwneud cydweithredu amlsector yn effeithiol, ond hefyd sut y gellir ei ddatblygu a'i wella mewn cyd-destunau penodol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y camau gweithredu pendant a nodwyd gennym sy'n helpu i gychwyn a chynnal cydweithredu, sy'n addas ar gyfer gwahanol gyd-destunau cydweithredu.

» Roedd dau gam i'r prosiect. Roedd cam un yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth a gyhoeddwyd ers dechrau pandemig Covid-19 ar sut mae cydweithredu amlsector yn dylanwadu ar weithredu a lles cymunedol, gan dynnu ar astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer, llenyddiaeth lwyd yn y DU, a llenyddiaeth academaidd. Mae crynodeb ategol o dystiolaeth cyn-bandemig ar y pwnc hwn - **Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol: adolygiad o dystiolaeth cyn-bandemig** - wedi'i gyhoeddi ar wahân. Roedd cam dau yn cynnwys gweithdy i ymgysylltu â chanfyddiadau allweddol o'r adolygiad tystiolaeth, archwilio eu perthnasedd i gyd-destunau ymarfer a pholisi gwahanol, ac ymgorffori profiad ac arbenigedd seiliedig ar ymarfer yn y sylfaen dystiolaeth.

» Nododd yr adolygiad tystiolaeth cam un ystod o gamau gweithredu sy'n helpu i ddatblygu cydweithredu amlsector i gefnogi gweithredu cymunedol a lles. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u categoreiddio'n weithgareddau sy'n helpu i ddatblygu diben cyffredin o fewn cydweithrediad, trefniadau llywodraethu sy'n hyblyg ac sy'n esblygu drwy weithredu tuag at gyflawni'r diben cyffredin hwnnw, a mecanweithiau ariannol sy'n cefnogi cydweithredu (e.e., drwy ganiatáu rheolaeth dros benderfyniadau gwariant, cyllido costau craidd, a thros gyfnodau hirach).

- Adleisiodd y gweithdy cam dau lawer o ganfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth cam un gan hefyd eu herio ac ychwanegu atynt. Cynigiodd y cyfranogwyr wybodaeth gyd-destunol bwysig – er enghraifft, amlygu sut y gallai'r gwahanol gamau gweithredu a nodwyd yn yr adolygiad fod yn addas ar gyfer cydweithrediadau o wahanol aeddfedrwydd, gydag adnoddau amrywiol, isadeileddau a pherthnasoedd presennol, ac mewn ardaloedd daearyddol gwahanol. Fe wnaeth y dystiolaeth hon o'r gweithdy wella dealltwriaeth o sut y gellid cymhwyso gwahanol gamau gweithredu sy'n cefnogi cydweithredu amlsector mewn cyd-destunau ymarfer amrywiol.

- Mae canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth cam un a'r gweithdy cam dau wedi'u datblygu'n adnodd gyda'r nod o helpu i nodi camau gweithredu pendant y gellir eu cymryd mewn gwahanol gyd-destunau i ddatblygu cydweithredu amlsector sy'n gwella gweithredu cymunedol a lles. Yn hytrach na dim ond disgrifio sut beth yw cydweithredu amlsector da, ei nod yw amlinellu rhai opsiynau ar gyfer cyflawni hynny.



# Cyflwyniad

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar (RCP) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar ymchwil i ddeall yn well rôl cydweithredu amlsector wrth wella gweithredu cymunedol a lles.

**Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar:** "Fforwm cenedlaethol ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n helpu i ddatblygu a hyrwyddo gweithgareddau a chamau gweithredu lleol sy'n gwella lles mewn cymunedau #PŵerCymunedol ledled Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn cael ei chadeirio ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a Chyngor Sir Penfro." Gallwch ddarganfod mwy am y Bartneriaeth yma: Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar – Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (copronet.cymru)

**Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** "yn gweithio i fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol trwy ddefnyddio tystiolaeth." Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU. Mae rhagor o wybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar gael yma: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | WCPP

Mae'r prosiect cydweithredol hwn yn ymateb i ddiddordeb ar draws y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar (RCP) mewn deall nid yn unig beth sy'n gwneud cydweithredu'n effeithiol ond hefyd sut y gellir ei ddatblygu a'i wella mewn cyd-destunau penodol. Er bod ymchwil sy'n bodoli eisoes yn taflu goleuni ar elfennau cydweithredu llwyddiannus (e.e., perthnasoedd dibynadwy a pharch at ei gilydd, nodau cyffredin ac adnoddau digonol), mae llai yn hysbys am sut i gychwyn a chynnal cydweithredu lle nad yw'r 'cynhwysion' delfrydol hyn yn bodoli neu lle maent yn anoddach eu cyflawni. Felly, roeddem yn canolbwyntio ar nodi camau gweithredu pendant i ddatblygu cydweithredu, a oedd yn addas ar gyfer cyd-destunau a nodau cydweithredu gwahanol. Roedd dau gam i'r prosiect:

1. Adolygiad o dystiolaeth a gyhoeddwyd ers dechrau pandemigCovid-19[1] , yn archwilio sut mae cydweithredu amlsector yn dylanwadu ar weithredu cymunedol a lles. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chymunedol ar draws holl ranbarthau Cymru (gweler Ffigur 1 am fap o leoliadau astudiaethau achos), llenyddiaeth lwyd yn y DU (e.e., adroddiadau a blogiau seiliedig ar ymarfer), a llenyddiaeth academaidd (gweler Atodiad 3). Roedd astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer yn adrodd ar fentrau a oedd naill ai ar gyfer Cymru gyfan, yn benodol i ranbarth penodol o Gymru, neu'n seiliedig ar le ac yn hyperleol. Roedd rhai astudiaethau achos nad oedd yn nodi rhanbarth neu leoliad penodol. Yn ogystal, gwnaed crynodeb o dystiolaeth cyn-bandemig ar nodweddion allweddol a modelau o weithredu cymunedol cydweithredol gan bartneriaid ym Mhrifysgol Leeds Beckett.

[1] Bwriad y ffocws hwn yw cipio'r hyn a ddysgwyd o'r cynnydd mewn gweithredu cymunedol, ac arloesi mewn cydweithredu amlsector yn ystod cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, o ystyried bod llawer o hyn yn dibynnu ar seilweithiau, asedau a pherthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes, cynhwyswyd crynodeb o dystiolaeth cyn-bandemig i gasglu'r cyfoeth o lenyddiaeth bresennol ar gydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol.

2. Gweithdy i ymgysylltu â chanfyddiadau allweddol o'r adolygiadau tystiolaeth, archwilio eu perthnasedd i amrywiol gyd-destunau ymarfer a pholisi yng Nghymru a thu hwnt, ac ymgorffori profiad ymarferol ac arbenigedd cyfranogwyr y gweithdy yn sylfaen dystiolaeth cam un.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau drwy amlinellu **themâu tystiolaeth** allweddol a nodwyd ar draws y ffynonellau a adolygwyd yng ngham un, gan ganolbwyntio ar nodweddion a ffactorau sy'n cefnogi cydweithredu effeithiol, ac esbonio pam y dewisom bwysleisio camau gweithredu pendant sy'n cefnogi'r datblygiad hwn.

Yna, mae'r adran **canfyddiadau allweddol** yn canolbwyntio ar y camau gweithredu hyn, gan eu categoreiddio o dan dri phennawd: gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin, trefniadau llywodraethu, a mecanweithiau ariannol. Ar gyfer pob categori, rydym yn crynhoi canfyddiadau perthnasol o'r adolygiad tystiolaeth cam un, gan gynnwys mewnwelediadau o'r adolygiad o dystiolaeth cyn-bandemig gan Brifysgol Leeds Beckett **(mewn blychau gwyrddlas)**, ac yna canfyddiadau o'r gweithdy cam dau a sut maent yn ategu, yn herio, neu'n ychwanegu at y dystiolaeth bresennol **(mewn blychau llwyd)**.

Mae **casgliad** yr adroddiad yn crynhoi sut y cafodd y canfyddiadau hyn eu cyfuno i greu 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu' sy'n canolbwyntio ar ymarfer, gyda'r nod o arwain y gwaith o nodi camau gweithredu penodol i gefnogi cydweithredu amlsector mewn cyd-destunau ymarfer a pholisi amrywiol.

Darperir manylion y **dulliau** ymchwil a ddefnyddiwyd yn Atodiadau 1 a 2, ac mae rhestr gynhwysfawr o'r astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer, y llenyddiaeth lwyd, a'r ymchwil academaidd a adolygwyd ar gael yn Atodiad 3. Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at y deunyddiau adolygu hyn gyda'i gilydd fel y 'ffynonellau'. Mae Ffigur 2 yn crynhoi gwybodaeth am y ffynonellau hyn a sut y cawsant eu nodi.



**Ffigur 1: Lleoliadau astudiaethau achos cydweithredu amlsector ledled Cymru**

- Astudiaethau Cymru gyfan (5)
- Astudiaethau rhanbarthol (26)
- Astudiaethau lleoliad penodol (28)
- Dim lleoliad penodol (14)

Roedd cyfanswm o 73 o astudiaethau achos wedi'u cynnwys. Roedd rhai astudiaethau achos o'r un ardal ac nid yw dyblygu lleoliadau'n cael ei adlewyrchu yn y ffigur hwn. Gweler Atodiad 3 am restr lawn o leoliadau astudiaethau achos.

| | Astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer | Llenyddiaeth lwyd | Ymchwil academaidd | Llenyddiaeth cyn-bandemig |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad/e.e.** | Disgrifiadau o ymarfer wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw | Adroddiadau cyhoeddedig, blogiau, fideos | Ymchwil cyhoeddedig, wedi'i adolygu gan gymheiriaid | Adolygiadau academaidd a llenyddiaeth lwyd |
| **Daearyddiaeth** | Cymru | Y DU | Y DU | Y DU |
| **Amserlen** | Mawrth 2020 - Gorffennaf 2023 | Mawrth 2020 - Gorffennaf 2023 | Mawrth 2020 - Gorffennaf 2023 | Ionawr 2013 – Mawrth 2020 |
| **Strategaeth chwilio** | 'Galwad allan' i aelodau'r RCP a'u rhwydweithiau ehangach | Ffynonellau a ddarparwyd gan aelodau RCP + chwiliad ar-lein systematig | Chwilio cronfeydd data (Scopus + Web of Science), chwilio dyfyniadau | Chwilio cronfa ddata (6 chronfa ddata), chwilio dyfyniadau, chwilio gwefannau |
| **Sgrinio** | Mae'n adrodd stori am yr hyn a ddigwyddodd | Perthnasedd i'r pwnc | Perthnasedd i'r pwnc<br><br>Erthyglau cyfnodolion yn unig | Perthnasedd i'r pwnc<br><br>Adolygiadau academaidd a llenyddiaeth lwyd yn unig |
| **Ffynonellau wedi'u hepgor** | Dim un | 43 o 112 testun llawn | Cronfa ddata: 451 o 628 crynodeb; 152 o 177 testun llawn<br><br>Dyfyniad: 9 o 19 testun llawn | Cronfa ddata: 581 o 641 crynodeb; 51 o 60 testun llawn<br><br>Chwilio dyfyniadau a gwefannau: 40 o 77 testun llawn |
| **Ffynonellau wedi'u cynnwys** | 73 | 69 | 35 (25 cronfa ddata; 10 ffynhonnell arall) | 46 (9 cronfa ddata; 37 ffynhonnell arall) |

**Ffigur 2: Ffynonellau tystiolaeth ar gyfer adolygiad 'cam un'**

**Diffiniadau wedi'u datblygu ar y cyd ar gyfer termau allweddol a ddefnyddir yn yr adolygiad:**

Wrth **'cydweithredu amlsector'**, rydym yn cyfeirio at gydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a chymunedol neu wirfoddol (e.e., gwasanaethau cyhoeddus a/neu lywodraeth leol a chenedlaethol, gyda sefydliadau neu grwpiau cymunedol, gwirfoddol a thrydydd sector). Rydym yn cydnabod arwyddocâd a gwerth cydweithrediadau sy'n cynnwys sectorau ehangach (e.e., y sector preifat). Fodd bynnag, mae ffocws yr adolygiad hwn, fel y'i pennwyd ar y cyd, yn canolbwyntio'n benodol ar gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r gymuned.

Wrth **'gweithredu cymunedol',** rydym yn golygu unrhyw weithgareddau, ffurfiol neu anffurfiol, sydd wedi'u hanelu at gefnogi lles unigolion a chymunedau, ac a gyflawnir gan grwpiau ar sail daearyddiaeth gyffredin (e.e., cymdogaethau) neu ddiddordebau cyffredin (e.e., hobïau, hunaniaeth, neu brofiadau bywyd).


Wrth **'lles'**, rydym yn golygu sut mae pobl yn teimlo'n emosiynol ac yn gorfforol. Mae hyn yn cwmpasu profiadau ar lefel unigol (e.e., hunanwerth, ymdeimlad o bwrpas), ac ar lefel gymunedol (e.e., cydlyniant cymdeithasol, rhwydweithiau/gwasanaethau cymorth, neu ansawdd amgylcheddol). Mae gwella lles emosiynol a chorfforol yn gymhelliant ac yn ganlyniad y gweithgareddau a archwilir yn yr ymchwil hon. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw llawer yn defnyddio'r term 'lles' yn benodol, a bod profiadau emosiynol a chorfforol yn cael eu deall a'u cefnogi mewn amrywiol ffyrdd.

# Themâu tystiolaeth

Mae'r adran hon yn crynhoi'r themâu tystiolaeth allweddol a nodwyd drwy ein hadolygiad cam un o astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer, llenyddiaeth lwyd, ac ymchwil academaidd, ac mae'n esbonio ein ffocws wedi'i mireinio ar ymchwil. Gan adlewyrchu pryderon rhanddeiliaid ynghylch cynllun y prosiect, gwelsom fod y ffynonellau a adolygwyd yn aml yn adrodd yn gyfan gwbl ar **beth** y gallai cydweithredu traws-sector effeithiol sy'n cefnogi gweithredu cymunedol a lles ei olygu. Felly, gwnaethom gyfiawnhau ein ffocws ar **sut** y gellir cyflawni cydweithredu effeithiol o'r fath ar draws gwahanol gyd-destunau a **pham** (gyda pha nodau a deilliannau).

## 'Beth'

Darparodd y ffynonellau a adolygwyd fewnwelediadau manwl i **beth** mae cydweithredu effeithiol rhwng y gymuned a'r sector cyhoeddus yn ei olygu (ddiffinnir hyn fel y gallu i gynorthwyo gweithredu cymunedol i fynd i'r afael â heriau lles, o safbwynt y rhai sy'n cymryd rhan). Fe wnaethom gategoreiddio 'beth' yn **nodweddion** cydweithredu effeithiol rhwng y gymuned a'r sector cyhoeddus (e.e., ymddiriedaeth, parch, perchnogaeth, cydymddibyniaeth, nodau cyffredin) a'r **ffactorau** sy'n ei gefnogi (e.e., cyfalaf cymdeithasol a chysylltiadau, gallu ac adnoddau, isadeileddau digidol a ffisegol); yn fwyaf arwyddocaol, llywodraeth leol gefnogol sydd wedi ymrwymo i gydweithredu cymunedol a'r ymddiriedaeth, y cydymddibyniaeth a'r rhannu pŵer sydd eu hangen i'w ddatblygu a'i gynnal (gweler Ffigur 3).




**Ffigur 3: Nodweddion a Ffactorau cydweithredu effeithiol**


Mae'r nodweddion a'r ffactorau a nodir yn aml yn cael eu cyflwyno fel 'galluogwyr' neu 'gynhwysion' cydweithredu effeithiol. Maent yn cynnig trosolwg gwerthfawr o gyfranwyr a nodweddion cyffredinol, ac eto gall fod yn anodd gweld **sut** y gallai'r rhain fod yn berthnasol neu gael eu gwireddu mewn gwahanol gyd-destunau, yn enwedig lle gallai rhai 'cynhwysion' fod ar goll neu'n heriol i'w cyflawni, a bod rhwystrau rhag cydweithredu. Er enghraifft, gallai ystyr 'ymddiriedaeth' neu sut yr ydym yn meithrin ymddiriedaeth ddibynnu ar leoliad daearyddol, gyda phwy yr ydym yn gweithio, y nodau, yr adnoddau a'r isadeileddau sydd ar gael, ac ansawdd perthnasoedd yn y gorffennol a'r presennol.

Felly, fe wnaethom ganolbwyntio ein dadansoddiad o '**sut'** y gellid datblygu nodweddion cydweithredu amlsector effeithiol a'r ffactorau galluogi o fewn cyd-destunau amrywiol. Tynnodd hyn sylw hefyd at bwysigrwydd sefydlu **'pam'** rydym yn cydweithredu, fel rhagflaenydd i'w gael yn iawn o'r cychwyn cyntaf neu i'w wella lle mae'n mynd o chwith. Roedd cydweithredu'n fwy effeithiol lle'r oedd nod cyffredin y tu hwnt i'r cydweithredu ei hun (e.e., gwella iechyd meddwl pobl ifanc neu ryngweithio cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn). Fodd bynnag, gall cael cydweithredu fel nod fod yn gymhelliant arwyddocaol ar gyfer datblygu'r nodau trosfwaol hyn.

## 'Sut'

Wrth dynnu data o'r ffynonellau, buom yn chwilio am dystiolaeth o gamau pendant a oedd wedi (neu y gellid) eu cymryd mewn cyd-destunau penodol i gyflawni neu ddatblygu'r nodweddion cydweithredu effeithiol a grybwyllwyd uchod (e.e., ymddiriedaeth) a'r ffactorau galluogi (e.e., adnoddau ariannol). Mae Ffigur 4 yn dangos sut mae'r nodweddion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gydweithredu amlsector effeithiol yn cael eu cefnogi gan gamau gweithredu gwahanol a'u hannog gan nodau a deilliannau cyffredin (swyddogaethau cydweithredu). Mae'r holl gamau gweithredu a swyddogaethau hyn yn dibynnu ar y cyd-destun.

Trefnom y camau gweithredu yn dri chategori: **gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin, trefniadau llywodraethu, a mecanweithiau ariannol.** Mae Ffigur 5 isod yn amlinellu'r tri chategori hyn ac mae'n crynhoi'r mathau o gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob un. Y camau hyn – sef 'sut' y cydweithredu amlsector effeithiol – oedd prif ffocws ein dadansoddiad ac fe'u trafodir yn fanwl yn yr adran ganlynol. Nid dyma oedd prif ffocws llenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd, a oedd yn aml yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar nodweddion a ffactorau ('beth') cydweithredu da, ond fe'u disgrifiwyd yn amlach mewn astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer, gan amlygu pwysigrwydd casglu safbwyntiau ymarfer pellach trwy'r gweithdy. Yn bwysig, nid oedd digon o fanylion yn y dystiolaeth a adolygwyd ynghylch pwy a beth yr oedd y camau gweithredu hyn yn gweithio ar eu cyfer: sut y maent yn berthnasol i wahanol **swyddogaethau** (nodau a chanlyniadau) cydweithredu, ac i **gyd-destunau**gwahanol. Er enghraifft, gall y camau a gymerir amrywio yn dibynnu ar raddfa'r cydweithredu (lleol i genedlaethol), daearyddiaeth (gwledig i drefol), amserlenni (ar unwaith i'r tymor hwy), cyfuniadau o bartneriaid (e.e., grwpiau cymunedol, ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus, arianwyr), neu lefelau adnoddau a pherthnasoedd sy'n bodoli eisoes.




**Ffigur 4: Camau Gweithredu a Swyddogaethau sy'n sail i gydweithredu effeithiol**

> **Nod allweddol cynnal gweithdy ar y canfyddiadau hyn oedd datblygu cyd-ddealltwriaeth o sut mae gwahanol gamau gweithredu sy'n cefnogi cydweithredu amlsector yn gweddu i nodau, deilliannau a chyd-destunau gwahanol.**

# ‘Pam’

Roedd canolbwyntio ar y camau penodol wrth wraidd 'cynhwysion' cyffredinol cydweithredu amlsector hefyd yn amlygu pwysigrwydd **swyddogaethau** (neu 'pam') cydweithredu. Mynegwyd **nodau** neu sbardunau’r camau a gymerwyd naill ai ar ffurf ‘nodau proses’ (e.e., cydweithredu ar gyfer darparu gwasanaethau integredig neu ar gyfer ymgysylltu dinasyddion â phrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol) neu ‘nodau lles’ – nodau cydweithredu ar gyfer lles yn y pen draw (e.e., gwella iechyd meddwl pobl ifanc neu ansawdd amgylcheddol). Yn yr un modd, disgrifiwyd **deilliannau’r** camau a gymerwyd (yr hyn a gyflawnwyd ganddynt mewn gwirionedd) yn nhermau ‘deilliannau proses’ (y ffyrdd yr oedd cydweithredu’n cael ei wella a gweithredu cymunedol yn cael ei gefnogi) a ‘deilliannau lles’ (arwyddocâd y cydweithio hwn ar gyfer llesiant yn y pen draw). Daeth cydweithrediadau amlsector effeithiol i’r amlwg yn aml lle nad oedd cydweithredu’n cael ei ystyried yn nod ynddo’i hun (e.e., oherwydd bod polisi mewnol neu allanol neu gyfle ariannu yn ei wneud yn ofynnol) ond roedd yn fodd o gyflawni canlyniad lles cyffredin, penodol (e.e., mynd i’r afael ag unigrwydd ieuenctid mewn dinas).

| | **Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin:** Gweithgareddau sy'n cefnogi cydweithredu amlsector trwy ddatblygu nodau/dealltwriaeth gyffredin | **Trefniadau llywodraethu:** Rolau, cyfrifoldebau, prosesau a strwythurau a ddatblygwyd i gefnogi cydweithredu amlsector | **Mecanweithiau ariannol:** Ymagweddau ar gyfer ariannu gwaith/mentrau mewn ffyrdd sy'n cefnogi cydweithredu amlsector |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu o’r adolygiad cam un o dystiolaeth bresennol** | **Casglu gwybodaeth** (ymchwil gymunedol, ymarferion gwrando, digwyddiadau ymgysylltu) | **Rolau cyswllt/cydlynu a llwybrau atgyfeirio** (e.e., mewn/ar draws ALlau, trydydd sector, gwasanaethau cyhoeddus) | **Cyllid grant** (hyblyg, hirdymor, cyfranogol) |
| | **Meddwl a mapio systemau** (mapio materion i nodi’r achosion sylfaenol a nodau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â nhw) | **Cyfrifoldebau a ffiniau** (cytundeb ar y cyd ynghylch cwmpas cyfrifoldebau gwahanol bartneriaid) | **Comisiynu** (cydweithredol/strategol/seiliedig ar le/seiliedig ar ddeilliannau) |
| | **Cynllunio hirdymor a macro-nodau** (dogfennau hyblyg, byw yn amlinellu camau tuag at nodau cyffredin) | **Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd** (e.e., grwpiau llywio amrywiol, esblygol, sy’n seiliedig ar werthoedd) | **Adeiladu cyfoeth cymunedol** (caffael; cronfeydd buddsoddi/cyfoeth) |
| | **Hyfforddiant/dysgu ar y cyd** (digwyddiadau, cynadleddau, cymunedau ymarfer, gweminarau, 'cinio a dysgu', hyfforddiant, adnoddau) | **Polisïau a gweithdrefnau** (e.e., prosesau/gofynion wedi’u ffurfioli ar lefel sefydliadol neu ar lefelau ehangach) | **Isadeiledd ac ystadau** (trosglwyddiadau asedau cymunedol, ymddiriedolaethau tir, ad-drefnu ystadau) |
| | **Cyfuno a rhannu gwybodaeth** (platfformau ar-lein, rhestri/cyfeiriaduron, cronfeydd data, mapio asedau) | **Cyrff neu isadeileddau rhanbarthol/cenedlaethol** (creu neu ddefnyddio’r rhain i gydlynu/cefnogi ymdrechion) | **Codi Arian** (Cyllido Torfol, Rhoi Lleol, rhoddion preifat) |

**Ffigur 5: Camau a gymerwyd i ddatblygu cydweithredu amlsector sy’n cefnogi gweithredu cymunedol (a nodwyd yn yr adolygiad cam un o’r dystiolaeth)**

## Crynodeb o themâu tystiolaeth yn y llenyddiaeth cyn-bandemig

Roedd y crynodeb o dystiolaeth cyn-bandemig yn ymdrin â llenyddiaeth ar gydweithredu amlsector i gefnogi gweithredu cymunedol a lles dros gyfnod hwy a chyn y pandemig *(gweler Ffigur 2)*. Mae'n codi llawer o themâu tebyg i'r rhai a amlinellir uchod. Er enghraifft, mae'r llenyddiaeth yn canolbwyntio'n sylweddol ar nodweddion cydweithredu effeithiol a'r ffactorau sy'n ei alluogi. At hynny, lle mae'n treiddio i 'sut' a 'pam' cydweithredu effeithiol, nid dim ond 'beth', mae'n amlygu ystod o gamau gweithredu pendant. Mae'r camau gweithredu hyn yn rhychwantu'r tri chategori a nodwyd yn y prif adolygiad: diben cyffredin, trefniadau llywodraethu, a mecanweithiau ariannol.

Ychwanegiad pwysig yw'r graddau y mae'r llenyddiaeth cyn-bandemig yn manylu ar wahanol **fodelau ar gyfer cydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol a lles**. Mae'r rhain yn cynnwys gwahanol setiau o gamau gweithredu, wedi'u rhoi at ei gilydd i weddu i nodau a chyd-destunau'r cydweithrediadau y cawsant eu cynllunio ar eu cyfer. Prin oedd y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd gwahanol fodelau cydweithredu, y tu hwnt i adroddiadau astudiaethau achos lle nad oedd gwiriad annibynnol. Mae hyn yn adlewyrchu eu natur penodol i'r cyd-destun, yn ogystal â heriau 'tystiolaethu' nodweddion cydweithredu sy'n aml yn anodd dod o hyd iddynt, megis ymddiriedaeth, cydymddibyniaeth, a nodau cyffredin.

Anaml yr oedd ffynonellau o'r prif adolygiad, a oedd yn ymdrin â data o 2020-2023, yn disgrifio modelau cydweithredu yn fanwl neu fel prif ffocws. Fodd bynnag, fe wnaethant ddarparu mwy o fewnwelediad i effeithiolrwydd neu ddeilliannau camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â modelau gwahanol (efallai oherwydd eu bod yn fwy penodol o ran amser ac yn fwy pendant).

Yn olaf, mae'r llenyddiaeth cyn-bandemig yn cynnig mwy o fanylion ar sut mae perthnasoedd yn cael eu hadeiladu, ar y ddeinameg pŵer sy'n cefnogi neu'n rhwystro meithrin perthnasoedd effeithiol, a'r mathau o gamau gweithredu a allai helpu i wella'r elfennau hyn. Mae'r prif adolygiad (2020-2023) yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd diben cyffredin a sut mae'n sail i berthnasoedd effeithiol a deinameg pŵer mwy cytbwys.

> **O ystyried cryfderau a chyfyngiadau gwahanol rannau o'r sylfaen dystiolaeth, rydym yn adrodd ar ganfyddiadau'r prif adolygiad o dystiolaeth (2020-2023), y crynodeb o'r dystiolaeth cyn-bandemig, a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gweithdy rhyngweithiol (Ionawr 2024).**

# Canfyddiadau allweddol: camau gweithredu sy'n cefnogi cydweithredu amlsector effeithiol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol o'r adolygiad tystiolaeth cam un (sy'n cynnwys ffynonellau a gyhoeddwyd ers dechrau pandemig Covid-19, ynghyd â'r adolygiad o dystiolaeth cyn-bandemig sy'n cyd-fynd â hynny) ac mae'n archwilio sut yr aethpwyd ati i ymgysylltu â'r canfyddiadau hyn a sut yr ymhelaethwyd arnynt yn ystod gweithdy cam dau. Mae'r is-adrannau isod yn cyfateb i dri chategori'r **camau gweithredu** a amlinellir yn Ffigur 5 – y rhai y nododd adolygiad cam un eu bod yn hwyluso cydweithredu amlsector a oedd yn cefnogi gweithredu cymunedol a lles. Mae pob un yn dechrau trwy gyflwyno tystiolaeth ac enghreifftiau perthnasol o adolygiad cam un (rhan 'a'), wedyn maent yn egluro sut y cafodd y rhain eu hadleisio, eu herio, a sut yr ychwanegwyd atynt yn ystod trafodaethau gweithdy (rhan 'b'). Roedd yr olaf nid yn unig yn darparu cyd-destun gwerthfawr i ganfyddiadau'r adolygiad ond hefyd yn cyflwyno tystiolaeth ychwanegol bwysig yn gysylltiedig ag atsain canfyddiadau'r adolygiad mewn gwahanol leoliadau ymarfer a'r bylchau y gallai'r dystiolaeth hon sy'n seiliedig ar ymarfer fynd i'r afael â nhw.

## 1a: Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin

### Adolygu canfyddiadau

Mae'r is-adran hon yn canolbwyntio ar y categori cyntaf o gamau gweithredu yn Ffigur 5: 'gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin'. Ar draws y data, fe wnaethom nodi amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cefnogi cydweithredu amlsector effeithiol. Roedd y gweithgareddau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar adeiladu diben cyffredin: sefydlu deialog i rannu arbenigedd, profiadau a nodau; datblygu dealltwriaeth o ble mae'r rhain yn croestorri (neu'n gwrthdaro); amlygu cydgysylltiadau neu gyd-ddibyniaethau; a, thrwy hyn, datblygu rhesymau clir dros gydweithredu, wedi'u gwreiddio mewn diben cyffredin sy'n gysylltiedig â gwella bywydau pobl. Roedd hyn yn hanfodol i weithio traws-sector effeithiol. **Roedd nodweddion allweddol cydweithredu effeithiol fel 'ymddiriedaeth', 'cydymddibyniaeth' neu 'wrando' yn aml yn dod i'r amlwg fel sgil-gynhyrchion y gweithgareddau hyn ar gyfer datblygu diben cyffredin.**

# Casglu gwybodaeth

Yn aml, fe wnaeth datblygu diben cyffredin ddechrau gyda gweithgareddau casglu gwybodaeth, megis ymchwil, ymarferion gwrando, a digwyddiadau ymgysylltu ac allgymorth o fewn cymunedau (Baker, 2022; Charles et al., 2021; New Local, 2020; Young Foundation, 2021; Tiratelli, 2020) . Er enghraifft, roedd 'Community Powered Edmonton' – sef cydweithrediad rhwng y sector gwirfoddol, y GIG, a'r gymuned leol, dan arweiniad partneriaid yn y sector gwirfoddol yn Enfield – yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau creadigol, gweithdai, a grwpiau ffocws i ddeall asedau a heriau lleol yn well, a chryfderau a dyheadau trigolion (New Local, 2022). Roedd gwahanol fathau o weithgareddau casglu gwybodaeth mewn mannau eraill, o drefniadau neu ddigwyddiadau penodol i goffi a sgyrsiau anffurfiol. Yn hollbwysig, roeddent yn cynnwys gwrando'n barchus, a gwerthfawrogi arbenigedd ac asedau cymunedol (ACE, 2022).

# Meddwl a mapio systemau

Y tu hwnt i gasglu gwybodaeth, ymgymerwyd â gweithgareddau mwy strwythuredig megis meddwl trwy systemau neu fapio systemau (e.e., Broeder et al., 2022; Calamos a Thomas, 2022). Yn nodweddiadol, roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o gyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol i gyd-fapio her benodol mewn ardal leol neu sector, y gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu arni, a'r amrywiol actorion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r her. Y nod oedd dod o hyd i atebion strwythurol, megis dulliau anfeddygol o ymdrin â phroblemau iechyd (Broeder et al., 2022), ac archwilio sut y gallai gwasanaethau weithio ar y cyd tuag at yr atebion hyn.

Er enghraifft, yn Inverclyde, fe wnaeth datblygu map thema o waith ar draws yr ardal gynyddu dealltwriaeth o wasanaethau lleol, a thynnodd sylw at fylchau a chyfleoedd ar gyfer partneriaeth (Cloney a Wardlaw, 2022). Gwnaeth rhaglen cymunedau cydnerth ym Mhen-y-bont ar Ogwr gysylltiadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu a chydlynu (**Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 65**). Roedd prosiectau mapio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru yn cynorthwyo â nodi dulliau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE, 2022). Waeth beth oedd eu ffurf, roedd y gweithgareddau strwythuredig hyn i feddwl yn systematig am waith bob dydd a'r materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy wedi helpu i nodi nodau cyffredin, cyffredinol ac ailddiffinio llwyddiant yn gysylltiedig â nhw.

# Cynllunio hirdymor

Roedd **cynllunio hirdymor** yn perthyn yn agos i feddwl systemau. Roedd cynllunio hirdymor fel arfer yn cynnwys actorion o wahanol sectorau yn rhoi cofnod ar bapur o'u nodau cyffredin, trosfwaol ac amlinellu sut y gellid mynd ar drywydd y rhain. Bu'r cynlluniau hirdymor hyn yn effeithiol pan cawsant eu defnyddio fel 'dogfennau byw' hyblyg yr edrychwyd arnynt yn rheolaidd. Nid creu galwadau ychwanegol ar gydweithrediadau oedd y nod, ond yn hytrach cadw ffocws ar y weledigaeth ehangach hon er gwaethaf pwysau gwaith a darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd (e.e., Charles et al., 2021).

Roedd enghreifftiau'n cynnwys 'cynlluniau creu lleoedd' – gweledigaethau hirdymor ar gyfer lleoedd o Blackburn i Calderdale, wedi'u cydgynhyrchu gan sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a chymunedol a chymdeithas sifil ehangach i sefydlu sut y gallai'r lleoedd hyn wasanaethu'r rhai sy'n byw ynddynt yn well (Broadwood et al., 2021). Yng Ngogledd Cymru, roedd strategaeth ar gyfer 'Llwybrau Gwyllt' yn cynnwys cydweithredu rhwng Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, tîm Iechyd y Cyhoedd Betsi Cadwaladr, a'r awdurdod lleol i gynllunio coridorau bywyd gwyllt a oedd yn cyd-fynd â nodau cyffredin ynghylch iechyd a'r amgylchedd (Woodcock, 2023).

# Hyfforddiant a dysgu ar y cyd

Roedd gweithgareddau megis hyfforddiant, trefniadau dysgu, neu ddigwyddiadau hefyd yn hwyluso'r gwaith o nodi gorgyffwrdd, cyd-ddibyniaethau, a nodau cyffredin rhwng sectorau (Archwilio Cymru, 2023; Broeder et al., 2022; New Local, 2020; Calamos and Thomas, 2022; Taylor-Collins et al., 2021). Amlygont gyfleoedd am gydweithredu i gefnogi gwaith pawb oedd ynghlwm yn uniongyrchol, yn hytrach na chael eu gweld fel rhywbeth 'ychwanegol' neu 'ychwanegiad'.

Roedd enghreifftiau yn cynnwys cynadleddau ar-lein ar themâu penodol, e.e., tai cymdeithasol (HACT, 2022); hyfforddiant penodol megis hyfforddiant Cyngor Sir Gwynedd i staff ar egwyddorion ataliol 'Yr Hyn sy'n Bwysig' (Archwilio Cymru, 2023); neu gyfnewid swydd/swyddfa i annog dysgu ar y cyd, er enghraifft bod rhywun o'r cyngor lleol yn treulio diwrnod mewn sefydliad cymunedol neu i'r gwrthwyneb (Taylor-Collins et al., 2021). Yng Nghaerdydd a'r Fro, roedd hyfforddiant ar y cyd i staff y GIG a chanolfannau hamdden yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau hamdden ac iechyd ar y cyd fel rhan o raglen y GIG, 'Escape Poen' (Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 38). Ledled Lloegr, fe wnaeth partneriaethau Big Local gefnogi datblygiad sgiliau lleol yn gysylltiedig â chyfranogiad dinasyddion (Akhter et al., 2022).

# Cyfuno a rhannu gwybodaeth



Yn cefnogi'r uchod i gyd roedd gweithgareddau wedi'u hanelu at gyfuno neu rannu gwybodaeth, yn enwedig defnyddio offer ar-lein fel cronfeydd data, mapiau asedau a chyfeiriaduron gwasanaeth (Archwilio Cymru, 2022; NWSCWB, 2020). Yn wahanol i'r mapiau systemau a drafodwyd uchod – sy'n helpu i ddelweddu heriau penodol, eu hachosion sylfaenol, deilliannau, a'r rhai sy'n ymwneud â mynd i'r afael â nhw – nod mapiau asedau a chyfeiriaduron gwasanaeth yw cofnodi'r holl wasanaethau ac asedau sydd ar gael mewn maes neu sector penodol (er enghraifft, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, mannau gwyrdd, isadeileddau digidol a ffisegol). Nodwyd bod platfformau ymgysylltu cymunedol yn bwysig ar y cyd â chyfeiriaduron gwasanaeth, gan alluogi dinasyddion i gael mynediad at yr adnoddau hyn, eu defnyddio a chyfrannu atynt. Er enghraifft, mae Hwb Cymunedol Sir Benfro yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor ar-lein i aelodau'r gymuned, ochr yn ochr ag ystafelloedd sgwrsio ar gyfer timau a rhwydweithiau, rhestrau, a digwyddiadau (Atodiad 3, astudiaeth achos 8). Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan fenter y Community Needs Index wedi cael ei defnyddio i gryfhau ceisiadau am arian yn Everton, Lerpwl, a thargedu rhaglenni bwyd dros y gwyliau yn Swydd Hertford trwy gynnig dealltwriaeth fwy cynnil o gymunedau na mesurau economaidd yn unig, gan gynnwys ffactorau megis asedau cymunedol, cysylltedd ac ymgysylltu (Alakeson a Brett, 2020, OCSI, 2024).

## Tystiolaeth cyn-bandemig

Mae'r uchod yn disgrifio'r gweithgareddau a nodwyd yn y prif adolygiad o dystiolaeth (ers Mawrth 2020) sydd wedi cefnogi cydweithredu drwy ddatblygu diben cyffredin. Roedd llenyddiaeth cyn-bandemig hefyd yn amlygu camau gweithredu'n ymwneud â **chymorth, hyfforddiant a meithrin gallu**, gan gynnwys hyfforddiant ar gydgynhyrchu ac ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer staff sefydliadol ac aelodau'r gymuned. Roedd y ffocws hwn ar ddysgu cilyddol a dulliau seiliedig ar asedau, yn hytrach na chanfod bod angen 'hyfforddiant' yn unig ar y sector cymunedol.

Darparodd y llenyddiaeth cyn-bandemig fewnwelediadau manylach i gamau gweithredu ar gyfer **hyrwyddo a chefnogi perthnasoedd da**, gan archwilio cymhlethdodau deinameg pŵer, sut i gyflawni rhannu pŵer a meithrin ymddiriedaeth yn fwy. Fodd bynnag, mae llenyddiaeth ers 2020 wedi pwysleisio rôl hollbwysig diben cyffredin wrth ategu'r perthnasoedd hyn a dulliau penodol o ddatblygu'r rôl. Daeth pwysigrwydd diben cyffredin i'r amlwg fel gwers allweddol a ddysgwyd yn ystod y pandemig.

# 1b: Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin

## Canfyddiadau'r gweithdy

Myfyriodd mynychwyr y gweithdy ar y pum categori o 'weithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin' a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth cam 1. Mae'r manylion a gasglwyd o drafodaethau'r mynychwyr yn dangos sut yr oedd eu profiadau'n **adleisio** llawer o'r dystiolaeth hon, ond hefyd **yn ei herio** ac yn **ychwanegu** ati trwy ddarparu manylion cyd-destunol ar yr hyn sydd wedi bod yn effeithiol mewn cyd-destunau amrywiol. Nid yw'r canfyddiadau isod, ac mewn adrannau dilynol sy'n cyflwyno canfyddiadau'r gweithdy, yn cynrychioli profiadau a barn yr holl gyfranogwyr ond maent yn amlygu themâu a nodwyd ar draws cyfraniadau unigol. Er mwyn sicrhau anhysbysrwydd, mae gwybodaeth adnabyddadwy wedi'i hepgor, er bod gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei darparu lle bo modd.

Yn bwysig i lawer o fynychwyr y gweithdy yn ystod trafodaethau ar weithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin oedd adeiladu ymddiriedaeth trwy gydol partneriaeth. Roedd cofleidio ffyrdd newydd ac arloesol o gydweithredu i ysgogi newid hefyd yn thema allweddol. Er enghraifft, blaenoriaethu gweithgareddau a ddatblygodd ddiben cyffredin trwy gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedol, yn hytrach na thrwy drafodaeth yn unig. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch dyblygu gweithgareddau, yn enwedig o ran casglu gwybodaeth a mapio asedau, yn ogystal â gweithgareddau mapio a chynllunio systemau cysylltiedig, a digwyddiadau hyfforddi a dysgu. Amlygwyd bod angen osgoi 'ailddyfeisio'r olwyn'. Teimlai cyfranogwyr a oedd yn cynrychioli iechyd, y trydydd sector a sefydliadau cymunedol hefyd fod angen datblygu diben cyffredin ar lefelau strategol a gweithredol o fewn cydweithrediadau – diben a allai gael ei guddio gan ddiffyg cydlyniad rhwng y ddwy lefel. At hynny, nid oedd datblygu diben neu nodau cyffredin yn cael ei ystyried yn ddigonol; pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd diffinio sut beth fyddai cyflawni'r nodau hynny a sut y gellid mesur llwyddiant.

# Casglu gwybodaeth a chyfuno a rhannu gwybodaeth



Awgrymodd y rhai a oedd yn bresennol y dylid trefnu digwyddiadau, megis cynadleddau, ar gyfer sefydliadau cymunedol, aelodau'r gymuned, a'r cyngor lleol er mwyn archwilio cymorth ar y cyd a nodi anghenion lleol. Ystyriwyd bod cyfeiriaduron gwasanaeth a mapiau asedau yn ddefnyddiol ar gyfer casglu gwybodaeth a'i chyfuno a'i rhannu. Fodd bynnag, mynegodd cyfranogwyr bryderon ynghylch sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n ddigonol, ac am eu tuedd i ganolbwyntio ar 'brif wasanaethau' a sefydliadau, gan anwybyddu sefydliadau ar lawr gwlad neu leisiau nas clywir yn aml. Yn yr un modd, nid oedd mapiau asedau'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol iawn weithiau oherwydd eu diffyg cwmpas cynhwysfawr.
Er mwyn cefnogi cydweithredu aml-sector a gweithredu cymunedol yn effeithiol, mae angen i ymdrechion i fapio neu gofnodi systemau neu wasanaethau gynnwys ystod amrywiol o actorion, cael eu cynnal yn weithredol (os bwriedir eu defnyddio yn y tymor hir) ac, yn bwysig, cyflawni diben y tu hwnt i fapio ei hun (e.e., cefnogi nodau penodol cydweithrediad penodol).

# Meddwl a mapio systemau



Datgelodd trafodaethau gweithdai fod mynychwyr yn defnyddio gweithgareddau mapio systemau yn gyffredin i nodi asedau ac anghenion cymunedol, yn ogystal â sefydliadau a gwasanaethau â nodau tebyg. Nodwyd bod y gweithgareddau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu diben cyffredin. Er enghraifft, defnyddiodd cynghreiriau cymunedol seiliedig ar le weithgareddau mapio systemau i nodi asedau ac anghenion y gymuned, a gwahodd sefydliadau o'r sector cyhoeddus a phreifat i gyfrannu. Roedd y rhai a fynychodd y gweithdy o awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn cytuno bod mapio gyda'i gilydd, yn hytrach nag mewn seilos, yn galluogi dysgu ar y cyd ac yn cynyddu effeithiolrwydd mapio fel modd o ddatblygu 'diben cyffredin' ac osgoi dyblygu.

Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y ffordd y gweithredwyd gweithgareddau mapio systemau a'r rhesymeg wrth eu gwraidd, gan adleisio pryderon blaenorol ynghylch mapio asedau. Cytunodd y rhai a fynychodd y gweithdy y gallai mapio ‘unwaith ac am byth’ heb ddiben clir ac ymrwymiad i gamau gweithredu dilynol sefyll yn yr unfan, gan ganolbwyntio’n gyfan gwbl ar fapio er ei fwyn ei hun yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeilliannau neu gamau gweithredu, ac atal momentwm gwaith cydweithredol o ganlyniad. Cododd eraill faterion yn ymwneud â hirhoedledd mapiau systemau, oherwydd erbyn i'r ymarferion mapio ddod i ben, efallai y bydd senarios a'r actorion cysylltiedig wedi newid. Roedd gweithgareddau mapio hefyd yn cael eu hystyried yn wannach ac yn llai effeithiol lle y caiff rhai sefydliadau a safbwyntiau eu heithrio. Yn yr un modd â mapio asedau yn effeithiol, roedd yn rhaid i fapio systemau effeithiol gael ei wneud ar y cyd, gyda diben clir. Amlinellodd cyfranogwyr y gweithdy y potensial i gyflawni hyn trwy ddefnyddio offer a thechnegau meddwl systemau penodol i arwain gweithgareddau mapio.

Er enghraifft, mae cyngor lleol sydd â phartneriaethau sefydledig gyda’i gymunedau lleol wedi cael profiadau cadarnhaol gan ddefnyddio Dull Vanguard, sef math o feddwl systemau sy’n symud oddi wrth ddull ‘gorchymyn a rheolaeth’ o’r brig i’r bôn o ddarparu gwasanaethau, i fodel lle mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynnal systemau sy'n darparu adnoddau er mwyn cyflawni anghenion y gymuned (neu gwsmeriaid). Disgrifiodd cynrychiolwyr o sefydliad elusennol ledled y DU ddefnyddio Ymholi Gwerthfawrogol, sef ymagwedd seiliedig ar asedau at newid systemau, fel offeryn defnyddiol ar gyfer meithrin diben cyffredin i gefnogi cydweithredu amlsector. Mae'r dull hwn yn cynnwys yr holl bartneriaid mewn ateb y cwestiwn 'pam mae hyn yn bwysig i chi' er mwyn nodi dibenion cyffredin. Mae Uwchgynadleddau Ymholi Gwerthfawrogol, er enghraifft, yn dod â rhanddeiliaid amrywiol ynghyd, gan gynnwys grwpiau cymunedol, i nodi cryfderau, nodau, a deilliannau a ddymunir, gan hwyluso dull system gyfan o ymdrin â newid cadarnhaol. Roedd dulliau eraill a drafodwyd yn cynnwys rhannu gweledigaeth, theori newid, a choed gwrthrychol, y mae pob un ohonynt yn arfau a thechnegau sydd ar gael yn eang ar gyfer meddwl am achosion problemau a heriau a beth allai weithio i wella deilliannau.

## Cynllunio hirdymor



Er gwaethaf y defnydd eang o weithgareddau mapio a meddwl systemau, teimlai cyfranogwyr yn llai abl i gyflawni cynllunio hirdymor. Roedd hyn oherwydd gweithredu o fewn cyd-destunau a ddiffinnir gan waith prosiect tymor byr, yn aml i ymateb i faterion brys ac uniongyrchol. Disgrifiodd y cyfranogwyr hyn ei fod yn teimlo fel 'ymladd tân' a'i fod yn llesteirio cynllunio cydweithredol hirdymor. Roedd ymwybyddiaeth o dechnegau meddwl am y dyfodol, megis Tri Gorwel a Chynllunio Senario, ond roedd cyfranogwyr mewn rolau o fewn sefydliadau cymunedol yn teimlo'n llai abl i ddefnyddio'r rhain heb gymorth.

Yn gysylltiedig â hyn roedd trafodaeth ar yr angen am gyfleoedd i gynnal gweithgareddau mapio a chynllunio cyn gosod cytundebau ariannu er mwyn sicrhau aliniad a chonsensws ar ddiben cydweithredu a'r deilliannau a ddymunir.

## Hyfforddiant a dysgu ar y cyd



Ystyriwyd bod hyfforddiant a dysgu ar y cyd yn bwysig. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yr her o ddeall neu werthfawrogi rolau a chyfrifoldebau pobl ar draws gwahanol sectorau a sefydliadau. Dywedodd aelodau o sefydliadau cymunedol lleol y byddai'n ddefnyddiol iddynt gael cyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n dod â phobl leol ynghyd â darparwyr gwasanaethau ar gyfer dysgu ar y cyd. Amlygwyd Rhwydweithiau Cymdogaeth, sef grwpiau cymunedol sy'n cyfrannu at gynlluniau cynghorau ar anghenion cymunedol fel llwybr i ymgysylltu â dinasyddion, fel enghraifft o arfer da. Roedd safbwyntiau hefyd bod hyfforddiant a dysgu ar y cyd sy'n cynnwys siarad a gwrando ar straeon yn gweithio'n dda i ddod ag elfen 'emosiynol' i ddatblygu diben cyffredin. Nododd Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau), grwpiau cymunedol ac ymchwilwyr fod mannau ffisegol a rennir yn ddefnyddiol wrth ddatblygu nodau cyffredin trwy ddysgu ar y cyd a chyfnewid syniadau, ond roedd y farn am faint y gofod hwnnw (boed yn fwrdd bach sy'n dod â phobl ynghyd neu'n gyfarfod cyngor neu neuadd dref fwy) yn amrywio.

# 1c: Gweithgareddau ychwanegol ar gyfer datblygu diben cyffredin

Roedd y bobl a fynychodd y gweithdai hefyd wedi nodi 'camau gweithredu ar gyfer datblygu diben cyffredin' o'u profiadau ymarferol, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad cam un o dystiolaeth bresennol.

## Diffinio deilliannau a sut i'w mesur

Yn ogystal â sefydlu diben a nodau cyffredin ar gyfer cydweithredu amlsector, pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy yr angen i gytuno ar sut y gallai'r amcanion hyn drosi'n ddeilliannau neu'n effeithiau mesuradwy a sut y byddai'r rhain yn cael eu mesur. Roedd hyn yn ymwneud â chanlyniadau'n gysylltiedig â phroses (beth sy'n cael ei gyflawni yn gysylltiedig â'r cydweithrediad ei hun, e.e., gwella cydlynu gwasanaethau neu gyfranogiad dinasyddion) a deilliannau lles dilynol (beth sy'n cael ei gyflawni'n ehangach yn gysylltiedig â nodau lles trosfwaol y cydweithrediad).

Amlygodd y rhai a fynychodd y gweithdy yr heriau sy'n gysylltiedig â mesur effaith a deilliannau cydweithredu. Maent yn aml yn dod ar draws y farn, yn enwedig gan lunwyr polisïau, comisiynwyr, ac arianwyr, y dylai mesur cadarn fod yn feintiol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried 'ansawdd' ochr yn ochr â maint, yn enwedig wrth ymgysylltu â phrosesau cydweithredol â chymunedau. Roedd y cyfranogwyr yn eiriol dros gytuno ar set o 'ddeilliannau' ansawdd a maint o'r cychwyn a thros fesur cynnydd tuag at y rhain yn gyson. I hwyluso hyn, bu cyfranogwyr yn trafod gwerth datblygu offer ar gyfer asesu effaith a deilliannau cydweithredu. Er enghraifft, mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn arf sy'n gallu gwerthuso effaith newidiadau arfaethedig i'r modd y darperir gwasanaethau ar iechyd a lles pobl. Defnyddiodd Cyngor Gwynedd y dull hwn a nodont ei fod hefyd yn fecanwaith i bawb gymryd perchnogaeth ar benderfyniad a fydd yn effeithio ar aelodau'r gymuned.

# Goruchwyliaeth ar y cyd i gydlynu gwasanaethau

Disgrifiodd y rhai a fynychodd y gweithdai sut y gallai diben cyffredin ddeillio o gamau gweithredu neu fecanweithiau penodol a ddefnyddir i ddatblygu goruchwyliaeth a chydlyniad ar draws gwahanol wasanaethau (yn debyg i'r rolau cyswllt a'r llwybrau atgyfeirio a drafodir yn adran 2a isod).

Er enghraifft, yn ystod pandemig Covid-19, datblygodd Tîm Cymunedau a sefydlwyd gan awdurdod lleol blatfform (aml-asiantaeth a threfniadaeth) a rennir i dderbyn ceisiadau e-ffurflen trigolion am gymorth. Mae pob cais am gymorth trwy e-ffurflen yn mynd at bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i nodi'n gywir at ba dîm y dylid cyfeirio'r preswylydd. Mae hyn wedi bod yn werthfawr ar gyfer datblygu diben cyffredin drwy ysgogi trafodaeth traws-sector yn y Grŵp Llywio Cymorth Craidd (sy'n goruchwylio gweithrediad y platfform a rennir) ar natur yr e-ffurflenni a dderbynnir, gan sicrhau bod gan yr holl bartneriaid ddealltwriaeth ac iaith gyffredin o ran ceisiadau cymorth, a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cymorth yn y gymuned.



# 2a: Trefniadau llywodraethu

## Adolygu canfyddiadau

Mae'r is-adran hon yn canolbwyntio ar yr ail gategori o gamau gweithredu yn Ffigur 5: 'trefniadau llywodraethu'. Mae hyn yn cyfeirio at yr ystod o rolau, cyfrifoldebau, prosesau a strwythurau ffurfiol a sefydlwyd i gefnogi cydweithredu amlsector. Roedd y trefniadau hyn yn hanfodol gan eu bod yn dyrannu amser ac adnoddau ar gyfer cydweithredu, gan ei integreiddio i 'fusnes fel arfer', gan felly sicrhau ei gynaliadwyedd trwy newidiadau i staffio a newidiadau gweithredol (e.e., Charles et al., 2021).

**Yn hanfodol i bob trefniant llywodraethu effeithiol yr oedd cadw ffocws ar bwynt trosfwaol neu 'ddiben cyffredin' cydweithredu amlsector**, megis y nod yn y pen draw, sef gwella lles cymunedol. P'un a oedd hyn yn cynnwys cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol neu leihau stigma tlodi, roedd trefniadau llywodraethu'n gweithio orau pan fyddent yn cael eu hystyried yn ffordd o gyflawni hyn (e.e., Charles et al., 2021). Pan ddatblygwyd trefniadau llywodraethu dim ond i hwyluso cydweithredu (yn enwedig os oedd cydweithredu dan orfod allanol yn gyfan gwbl), roeddent yn tueddu i fod yn llai effeithiol (Coutts et al., 2020).

Roedd cadw ffocws ar y diben sylfaenol hefyd yn hanfodol ar gyfer sicrhau hyblygrwydd o fewn strwythurau ffurfiol, fel yr amlygwyd mewn sawl achos (e.e., Charles et al., 2021; Comas-Herrera et al., 2020; Holstead et al., 2023). Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol yn darparu strwythur digonol yn unig i sicrhau eglurder (e.e., o ran rolau a chyfrifoldebau) ac, fel adeiladau sy'n gwrthsefyll daeargrynfeydd, roeddent yn ymgorffori hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau neu gyfleoedd newidiol. Roedd hyn yn caniatáu iddynt esblygu trwy weithredu tuag at gyflawni nodau lles trosfwaol - gwir bryderon y rhai sy'n gysylltiedig - yn hytrach na chael eu boddi dan greu polisïau neu strwythurau.

Roedd y ffynonellau a adolygwyd yn trafod pum math eang o drefniant llywodraethu.

# Rolau cyswllt a llwybrau atgyfeirio

Chwaraeodd y rhain ran hanfodol mewn llawer o gydweithrediadau effeithiol, yn enwedig pan sefydlodd awdurdodau lleol, gwasanaethau cyhoeddus, neu sefydliadau trydydd sector rolau 'cydlynydd' penodol i ymgysylltu â chymunedau a llywio llwybrau atgyfeirio traws-sector cymhleth (Archwilio Cymru, 2023; Tiratelli, 2020; Weakley et al., 2021). Roedd enghreifftiau o 'un pwynt mynediad' ar draws Cymru i Fanceinion Fwyaf, lle'r oedd timau – fel arfer o fewn awdurdodau lleol – yn darparu atgyfeiriadau, cyngor a gwybodaeth am wasanaethau ar draws gwahanol sectorau (NWSCWB, 2020). Roedd cydlynu ardal lleol hefyd yn amlwg – model o Awstralia a addaswyd mewn gwahanol ardaloedd, o Gastell-nedd Port Talbot i Harringay. Roedd timau neu gydlynwyr, fel arfer o fewn awdurdodau lleol, yn hwyluso cyfranogiad cymunedol trwy gysylltu unigolion â grwpiau, rhwydweithiau, gwasanaethau, cyllid a chyfleoedd gwirfoddoli (e.e., Tiratelli, 2020). Yn yr un modd, roedd rhagnodi cymdeithasol a rolau llywio cymunedol yn darparu ffyrdd o gysylltu pobl â chymorth anfeddygol, yn y gymuned, ar gyfer lles corfforol ac emosiynol – megis cyrsiau chwe wythnos 'Lles yn y Coetiroedd' gyda Choed Lleol (**Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 43**). Nod dulliau o'r fath oedd hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau mwy ataliol, seiliedig ar le, ac integredig (Archwilio Cymru, 2023).

Amlygodd gwerthusiad o Hybiau Cymorth Cymunedol Cyngor Gwynedd, a oedd yn anelu at wella mynediad at gymorth, cyngor a gweithgareddau, bwysigrwydd ystyried sut mae uchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau integredig, seiliedig ar le, yn gysylltiedig ag ardaloedd gwledig, lle y gallai gwasanaethau fod yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol (**Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 31**). Er bod anffurfioldeb ac ymddiriedaeth yn arwyddocaol, roedd trefniadau ffurfiol yn arbennig o werthfawr yn ystod camau cynnar sefydlu rolau cyswllt, a/neu lle roedd perthnasoedd blaenorol yn llai datblygedig. Roedd cyfarfodydd ffurfiol, cysylltiadau, a chyfeiriaduron gwasanaeth yn cefnogi cyswllt ac atgyfeirio (gan nodi manteision cyfeiriaduron a gynhelir yn dda y tu hwnt i rannu gwybodaeth i feithrin diben cyffredin).

Roedd y llwybrau atgyfeirio amlsector a reolir gan y rolau cysylltwyr hyn fel arfer yn gweithredu orau pan oeddent wedi'u ffurfioli, ond eto'n hyblyg. Er enghraifft, sicrhaodd gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol iechyd meddwl mewn un awdurdod lleol fod atgyfeirio rhwng grwpiau cymunedol a darpariaeth iechyd meddwl sector cyhoeddus yn cynnwys llwybrau a phwyntiau cyswllt clir, gan ganiatáu ar gyfer penderfyniadau achos wrth achos yn hytrach nag un ateb cyffredinol i bawb (Dayson et al., 2020).

# Cyfrifoldebau a ffiniau

Roedd dealltwriaeth gyd-ddatblygedig o gyfrifoldebau gwahanol sectorau a sefydliadau yn hanfodol i lwyddiant y rolau a’r llwybrau atgyfeirio uchod, yn ogystal â ffiniau clir rhyngddynt (Havers et al., 2021; Lloyd Jones and Holtom, 2021; MOVE, 2020; Y Senedd, 2021).

Er enghraifft, yn y cydweithrediad ar ragnodi cymdeithasol iechyd meddwl a ddisgrifiwyd uchod, chwaraeodd grwpiau cymunedol rôl hanfodol wrth atal materion iechyd meddwl rhag gwaethygu a galluogi pobl i symud rhag gwasanaethau ffurfiol. Fodd bynnag, roedd gan y grwpiau hyn ddealltwriaeth gadarn o pryd a sut i atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill (angen mwy dwys), a hwyluswyd gan gefnogaeth y sector cyhoeddus ar ffurf cysylltiadau uniongyrchol a phrotocolau clir (e.e., ymrwymiadau cadarn i argaeledd ac amseroedd ymateb) (Dayson et al., 2020).




Llun: Green Squirrel Railway Gardens Project

# Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd

Categori cyffredin arall o drefniadau llywodraethu oedd arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Roedd hyn yn nodweddiadol yn ymwneud â chydweithrediadau oedd â'r nod o wella cyfranogiad dinasyddion ym mhrosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol (tra bod creu rolau cyswllt/llwybrau atgyfeirio a ffiniau cyfrifoldeb clir yn ymwneud yn fwy â chydweithredu cymunedol-sector cyhoeddus wedi'i anelu at gydlynu gwasanaethau). Roedd y strwythurau ar gyfer cynyddu cyfranogiad cymunedol mewn gwneud penderfyniadau yn cynnwys cynulliadau dinasyddion, grwpiau rhanddeiliaid, byrddau arweinyddiaeth, llywodraethu a arweinir gan y gymuned, a phartneriaethau neu rwydweithiau gweithredu (Henderson et al., 2021; Holtom, 2022; New Local, 2023; Volunteer Scotland, 2020; Wilson and McCabe, 2021).

Mae enghreifftiau'n cynnwys 'rhwydwaith cynghrair dinasyddion' Barking a Dagenham neu Bartneriaethau Gweithredu Ardal yn Durham, a ddaeth â thrigolion, y cyngor, ac amrywiol sefydliadau lleol a gwasanaethau cyhoeddus ynghyd, gan greu mannau ar gyfer mewnbwn dinasyddion ynghylch asedau a gwasanaethau trwy ddigwyddiadau, deisebau, arolygon a cylchlythyrau (New Local, 2021).

Cyflawnodd rhaglenni LEADER swyddogaethau tebyg ledled Cymru, fel Arloesi Môn, y bu i'w grŵp gweithredu lleol lunio a gweithredu strategaethau datblygu lleol trwy bartneriaethau rhwng y gymuned, awdurdodau lleol ac asiantaethau trydydd sector (Baker, 2022).

Yn nodweddiadol, roedd enghreifftiau da o strwythurau gwneud penderfyniadau cyffredin yn cynnwys cynrychiolaeth uchel o aelodau'r gymuned (e.e., Akhter et al., 2022), roeddent yn gwneud ymdrechion penodol i atal y rhain rhag bod yn grwpiau wedi'u ffurfioli neu'n unigolion 'cefnog' yn unig (e.e., Broadwood et al., 2021), a nod rhai oedd cynnwys grwpiau penodol, naill ai oherwydd mai nhw sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan nodau'r cydweithredu neu oherwydd mai nhw yw'r lleisiau nas clywir amlaf. Er enghraifft, canolbwyntiodd y prosiect Asedau, Cyfranogiad ac Integreiddio Cymunedol yn Abertawe ar gynnwys pobl 'agored i niwed' neu 'wedi'u hallgáu'n gymdeithasol' mewn prosesau penderfynu ardal leol (Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 58). Yn ogystal, roedd hyblygrwydd ac esblygiad y strwythurau hyn yn allweddol i'w llwyddiant. Er enghraifft, gallai aelodaeth newid; gellid ailasesu cynrychiolaeth ac amrywiaeth yn gyson; gallai cyfrifoldebau arwain neu gyllideb symud o'r sector cyhoeddus i'r sector cymunedol dros amser; a gallai cymunedau gymryd rhan nid yn unig mewn gwneud penderfyniadau ond hefyd o ran perchnogaeth a rhedeg rhaglenni gwaith os ydynt yn dewis gwneud (e.e., Broadwood et al., 2021; Charles et al., 2021; SG, 2020).

Yn olaf, roedd sefydlu'r raddfa ddaearyddol briodol o strwythurau gwneud penderfyniadau yn bwysig – gan fod hyn yn ddigon bach i roi cyfrif am gyd-destun a chymhlethdod a chaniatáu ymdeimlad o berthyn, ond yn ddigon eang i integreiddio a chydlynu gweithgareddau (Calamos and Thomas, 2022).

# Polisïau a gweithdrefnau



Mewn rhai achosion, roedd polisïau a gweithdrefnau yn rhwystro cydweithredu effeithiol. Gallent beryglu'r ymddiriedaeth a'r hyblygrwydd sydd eu hangen er mwyn i gydweithredu ffynnu a llesteirio datblygiad diben cyffredin ar draws sectorau (yn anaml y mae cydweithredu sy'n cael ei yrru gan alw allanol yn unig yn gweithio'n dda) (e.e., Coutts et al., 2020). Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau o bolisïau a oedd yn cefnogi cydweithredu drwy greu fframweithiau, amser, adnoddau a diwylliannau i'w hwyluso (Charles et al., 2021; MOVE, 2020; Steiner et al., 2022). Yn nodweddiadol, roedd y rhain yn bolisïau a ddatblygwyd o fewn ac ar draws sefydliadau, ond polisi cenedlaethol sy'n cael clod am gefnogi cydweithredu effeithiol yw Deddf Grymuso Cymunedau 2015 yr Alban (Archwilio Cymru, 2023; Broadley and Dixon, 2022). Mae'r Ddeddf hon nid yn unig yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus hybu cyfranogiad, mae hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer hyn drwy'r mecanwaith polisi 'ceisiadau cyfranogiad', gan roi'r hawl i grwpiau o bobl wneud cais i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau gwasanaethau cyhoeddus a phroses ffurfiol ar gyfer gwneud hynny.

# Cyrff neu isadeileddau rhanbarthol/cenedlaethol



Yn olaf, gall cyrff neu isadeileddau rhanbarthol neu genedlaethol sydd wedi'u sefydlu'n benodol, fel Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector Cymru neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol, chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cydweithredu amlsector, yn enwedig pan fyddant yn canolbwyntio'n fwy ar sector neu faes polisi penodol (e.e., Y Senedd, 2021; Volunteer Scotland, 2020). Maent yn cysylltu pobl a rhwydweithiau perthnasol, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, ac yn cynnig gosodiadau ar-lein neu all-lein ar gyfer cydweithredu.

## Tystiolaeth cyn-bandemig

Mae'r uchod yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu a nodwyd yn y prif adolygiad o dystiolaeth (ers Mawrth 2020) sy'n cefnogi cydweithredu amlsector. Yn y llenyddiaeth cyn-bandemig, roedd tystiolaeth hefyd o werth diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol sy'n integreiddio cydweithredu neu ymgysylltu â'r gymuned i 'fusnes fel arfer'. Er enghraifft, trwy sicrhau adnoddau a chapasiti i gydweithredu, mynd i'r afael â gwrthwynebiad i rannu pŵer, a gwneud ymgysylltu yn hygyrch. Canfu'r adolygiad hefyd dystiolaeth ar bwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar y cyd, cymryd rhan ar y cyd yn y broses weithredu (lle y dymunir), a mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogiad. Fodd bynnag, roedd llai o ffocws ar sicrhau bod diben cydweithredu yn cael ei ddal yn ganolog mewn trefniadau llywodraethu, a oedd yn wers allweddol o'r pandemig.

# 2b: Trefniadau llywodraethu

## Canfyddiadau'r gweithdy

Yn ystod y gweithdy, bu'r mynychwyr yn myfyrio ar y categorïau 'trefniadau llywodraethu' a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth cam un. Mae'r manylion a gafwyd o drafodaethau'r mynychwyr yn dangos sut yr oedd eu profiadau'n **adleisio** llawer o'r dystiolaeth hon. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd **ei herio** ac **ychwanegu ati** trwy ddarparu manylion cyd-destunol ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda pryd a ble.


Gan adleisio canfyddiadau cam un uchod, amlygwyd arwyddocâd y cyd-destun trwy gydol trafodaethau'r gweithdy – yr angen am ddechrau drwy ofyn 'beth yw pwrpas y cydweithrediad?', ac yna cynllunio trefniadau llywodraethu yn unol â hynny. Thema gyffredinol gysylltiedig oedd yr angen am leihau a dileu 'haenau' llywodraethu diangen. Yn nodedig, honnodd y rhai a oedd yn bresennol, yn enwedig y rheini o gefndiroedd trydydd sector a chymunedol, ond hefyd o gefndiroedd awdurdodau lleol, mai strwythurau llywodraethu anffurfiol oedd y rhai mwyaf ffafriol i feithrin cydweithredu a meithrin ymddiriedaeth a thryloywder ymhlith partneriaid. Defnyddiwyd y pandemig fel enghraifft o ymddiried yn y gymuned i gydweithredu â gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi lles cymunedol 'heb yr holl waith papur' a chyda llawer llai o fonitro a throsolwg. Fodd bynnag, roedd gwerth strwythurau mwy ffurfiol yn cael ei gydnabod hefyd, yn enwedig yng nghamau cynnar cydweithredu.

# Rolau cyswllt a llwybrau atgyfeirio

Roedd trafodaethau ar arferion gorau mewn trefniadau llywodraethu effeithiol yn aml yn amlygu pwysigrwydd rolau cyswllt a llwybrau atgyfeirio. Roedd yn ymddangos bod cydnabyddiaeth traws-sector i'r rôl bwysig y mae cydlynwyr – neu'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'rhychwantwyr ffiniau' – yn ei chwarae mewn unrhyw bartneriaeth i lywio sefydliadau tuag at amcanion cyffredin. Cyfeiriwyd dro ar ôl tro ar draws grwpiau amrywiol at gydlynwyr ardal leol fel rhywbeth a oedd yn ddefnyddiol wrth feithrin cydweithredu gan fod ganddynt wybodaeth fanwl am y cyd-destun cymunedol lleol. Nododd sefydliadau cymunedol y gallai cydlynwyr ardal lleol hwyluso cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Serch hynny, mynegodd rhai cyfranogwyr angen am ddefnydd mwy effeithiol o gydlynwyr ardal leol heb nodi sut.

Un enghraifft a ddyfynnwyd oedd Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gefnogir gan Swyddogion Atgyfeiriadau Ymarfer Corff lleol, gan sicrhau bod cydlynwyr ardal leol neu swyddogion wedi'u lleoli o fewn y tîm priodol i gefnogi cydweithredu. Mae'r swyddogion hyn fel arfer yn cael eu cyflogi gan yr ymddiriedolaeth hamdden sy'n rheoli gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn hytrach na'r bwrdd iechyd lleol, gan arwain at integreiddio llwybrau atgyfeirio a gweithgarwch dilynol hirdymor yn fwy llyfn oherwydd eu gallu a'u safle o fewn y gymuned. Roedd enghreifftiau eraill o arfer da wrth ddefnyddio cysylltwyr cymunedol mewn lleoliadau gofal iechyd yn cynnwys dulliau tîm amlddisgyblaethol mewn meddygfeydd teulu a phaneli Adolygu gan Gymheiriaid gofal cymdeithasol.

# Cyfrifoldebau a ffiniau



Roedd cyfrifoldeb neu atebolrwydd a rennir yn bwnc a oedd yn codi dro ar ôl tro mewn sawl grŵp, gyda llawer o awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn, wedi'u hategu gan yr angen i ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth, ymrwymiadau priodol, a lle mae ffiniau. Nododd sawl cyfranogwr fod atebolrwydd weithiau'n pallu mewn gwaith cydweithredol oherwydd ei natur draws-sefydliadol a thraws-sector. Pwysleisiodd cyfranogwyr, yn enwedig o gefndiroedd llywodraeth leol a thrydydd sector, bwysigrwydd trefniadau llywodraethu clir o ran atebolrwydd. Adleisiodd eraill y teimlad hwn, gan ychwanegu y gall atebolrwydd cyffredin sicrhau perchnogaeth gyffredin dros benderfyniadau, yn enwedig i gymunedau.

Nododd cyfranogwyr fod amlinellu'n glir y cyfrifoldebau a'r ffiniau yn gofyn am ddefnyddio iaith gyffredin (e.e., rhwng cynghorau lleol a phartneriaid cymunedol), gan sicrhau bod telerau a chytundebau yn cael eu cydgynhyrchu, a defnyddio mecanweithiau ffurfiol megis Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Cynigiwyd y mecanweithiau hyn i gymell ac egluro cyfrifoldebau cyffredin ac i sefydlu paramedrau ynghylch ble a sut y mae cyfrifoldebau'n amrywio. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd mecanweithiau megis Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei lesteirio os nad yw pob partner yn cytuno i'w lofnodi, a/neu os na chyfeirir yn ôl ato a'i fod yn mynd yn angof. Cwestiynwyd addasrwydd trefniadau llywodraethu hanesyddol gan awdurdodau lleol yn cydweithio â grwpiau cymunedol. Yn aml, ystyriwyd bod y rhain yn anaddas ac yn feichus, gan bwysleisio unwaith eto bwysigrwydd trefniadau llywodraethu hyblyg wedi'u teilwra i nodau neu ddiben penodol cydweithrediad.

Amlygodd rhai cyfranogwyr heriau wrth sefydlu a chynnal ffiniau o ran gwahanol gyfrifoldebau partneriaid lluosog mewn cydweithrediad a sut mae'r rhyngweithiadau hyn yn datblygu. Gall natur gymhleth rhai strwythurau llywodraethu gymylu ffiniau yn aml, er enghraifft. Rhannodd cyfranogwr o gefndir llywodraeth leol ei frwydr i sefydlu ffiniau clir rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector ar ôl y pandemig, wrth i anghenion cymunedol ddod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r cymhlethdodau hyn wedi arwain at ddibyniaeth drymach ar bartneriaid trydydd sector a gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â'r anghenion hyn a darparu gwasanaethau, oherwydd diffyg capasiti yn y sector statudol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr greu 'grŵp llywio cymorth craidd' sy'n gweithredu fel cangen strategol tîm, i gynorthwyo â gosod, cyfleu a monitro ffiniau, a thrwy hynny leihau dyblygu gwaith neu'r risg o orlwytho partneriaid penodol mewn cydweithrediad.

# Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd

Roedd canfyddiadau'r gweithdy ar 'yr hyn sydd ei angen' o ran arweinyddiaeth mewn cydweithrediadau yn adleisio'r canfyddiadau o'r adolygiad cam un ynghylch yr angen am wneud penderfyniadau ar y cyd. Mynegodd sefydliadau cymunedol a chynrychiolwyr y trydydd sector, yn arbennig, y farn bod cydweithrediadau lleol yn aml yn methu pan fyddant yn eithrio cymunedau lleol o drefniadau llywodraethu, gan ragdybio yn lle hynny beth sydd ei angen ar gymunedau a gweithredu ar eu rhan. Disgrifiodd rhai mynychwyr brofiadau o gael eu gwahodd i ymuno â chydweithrediadau ar ôl i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud eisoes, gan arwain at amgyffrediad bod cyflawni diben cyffredin wedi'i fethu. Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr y gweithdy fod angen i drefniadau llywodraethu ymgorffori strwythurau gwneud penderfyniadau gan sicrhau pŵer 'gwirioneddol gyfartal' rhwng partneriaid statudol a chymunedol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr hefyd fod cefnogaeth uwch arweinwyr  ar ddechrau'r cydweithredu yn hanfodol ar gyfer llwyddiant, felly hefyd cydnabod ar bob lefel arweinyddiaeth nad yw cydweithredu yn rhatach na gweithio ar eich pen eich hun. Roedd hyn yn golygu, yn arbennig, na ddylai arweinwyr a chomisiynwyr ddisgwyl gwario llai o arian ar gyfer yr un canlyniadau nag a fyddai'n ofynnol pe na bai'r gwaith yn cael ei wneud ar y cyd.



# Polisïau a gweithdrefnau

Mae tystiolaeth o'r gweithdy yn ategu canfyddiadau adolygiad cam un y gall polisïau a gweithdrefnau ffurfiol lesteirio ymdrechion cydweithredol ond y gallant fod yn fuddiol yn ystod camau cydweithredu cynharach os ydynt yn hyblyg ac wedi'u cyd-greu i sicrhau bod dibyn cyffredin yn sail iddynt. Mae'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar bolisïau a gweithdrefnau sydd naill ai wedi'u datblygu ar gyfer a thrwy gydweithrediad penodol neu wedi'u gorfodi yn allanol (e.e., gan bolisi cenedlaethol). Fodd bynnag, disgrifiodd rhai o'r rhai a fynychodd y gweithdai hefyd y manteision a allai ddeillio o fyfyrdodau ar lefel y sefydliad ynghylch a yw eu llywodraethu, eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain yn galluogi cydweithredu amlsector a datblygu diben cyffredin ochr yn ochr ag eraill.

Yn ôl y cyfranogwyr, roedd y defnydd o ddogfennau polisi mewnol o fewn cydweithrediad yn ddefnyddiol i ddarparu eglurder diben a chyfeiriad; er enghraifft, datblygu Cylch Gorchwyl sy'n amlinellu diben, cyfrifoldebau, cerrig milltir allweddol, a thargedau penodol, mesuradwy y grŵp yn glir. Fodd bynnag, cododd y rhai a fynychodd y gweithdy bryderon ynghylch faint o fiwrocratiaeth y mae'n rhaid i bartneriaethau ei lywio yn aml er mwyn gwneud hyd yn oed mân newidiadau i bolisïau neu strwythurau llywodraethu.

O ran polisïau allanol, teimlai sawl cyfranogwr y dylai'r holl actorion perthnasol mewn cydweithrediad gadw at ddeddfwriaeth berthnasol ac y dylid gwerthuso hyn yn rheolaidd. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno y dylai hyn fod yn wir, canfu cyfranogwyr o gefndiroedd ymchwil y gallai polisïau cenedlaethol lesteirio yn hytrach na hwyluso cydweithredu effeithiol. Teimlai rhai y gellid cefnogi ymlyniad at y dyletswyddau a roddwyd ar gyrff cyhoeddus drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gysylltiedig â chydweithio, cyfranogiad, anghenion hirdymor ac integreiddio yn fwy cyson. Teimlai eraill fod mwy o ffocws gan y gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, felly, eu bod yn fwy tebygol o gael eu bodloni.

# Cyrff neu isadeileddau rhanbarthol/cenedlaethol

Cymysg oedd y farn ar effeithiolrwydd cyrff rhanbarthol a chenedlaethol o ran cefnogi cydweithredu amlsector. Cododd y rhai a oedd yn bresennol o gefndir awdurdodau lleol bryderon nad yw cynlluniau a ddatblygir ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bob amser yn trosi'n ymarfer gweithredol ar lefel awdurdod lleol, gan arwain at golli diben yn y broses. Hefyd, disgrifiodd cynrychiolwyr iechyd fod trefniadau llywodraethu o fewn y GIG yn aml yn llesteirio cydweithredu amlsector oherwydd anawsterau yn ymwneud â rhannu data a gwybodaeth (e.e., trwy systemau TG a digwyddiadau ar y cyd).

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o arfer da mewn isadeiledd rhanbarthol yn cefnogi cydweithredu, megis y Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol a ddatblygwyd ar lefel ranbarthol. Mae'r rhwydwaith hwn yn dod â chynrychiolwyr iechyd, awdurdodau lleol, a thrydydd sector ynghyd i drafod y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i gymunedau, beth sydd angen newid, sut mae angen iddo newid, a sut i gydweithredu'n effeithiol.



# 2c: Trefniadau llywodraethu ychwanegol

Yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad cam un o dystiolaeth bresennol, nododd y rhai a fynychodd y gweithdy hefyd drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer cefnogi cydweithredu amlsector o'u hymarfer.

## Is-grwpiau cydweithredu

Trafododd cyfranogwyr y gweithdy werth sefydlu is-grwpiau o fewn cydweithrediadau mwy, neu gymunedau ymarfer. Roedd yr is-grwpiau hyn yn galluogi aelodau i ganolbwyntio ar eu meysydd arbenigedd a diddordeb a'u datblygu – er enghraifft, ynghylch mater penodol, maes polisi neu ardal leol yn gysylltiedig â nodau cyffredin cyffredinol cydweithrediad. Pwysleisiwyd nad oedd y dull hwn yn golygu creu haenau ychwanegol o lywodraethu, a oedd yn cael ei ystyried yn wrthgynhyrchiol, ond yn hytrach yn ymwneud â gwahaniaethu rhwng gweithgareddau o fewn cydweithrediad. Er enghraifft, mewn cydweithrediad amlsector sy'n canolbwyntio ar wella mynediad i fannau gwyrdd o fewn cymuned, efallai bydd rhai aelodau'n canolbwyntio ar fynediad ar gyfer grwpiau penodol, tra bod eraill yn canolbwyntio ar ymarferoldeb perchnogaeth tir.

Cyfeiriwyd at is-grwpiau cydgynhyrchu â thema fel enghraifft o arfer da. Byddai'r is-grwpiau hyn yn cynnwys aelodau o wahanol sectorau, yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng sectorau. Byddai is-grwpiau wedyn yn adrodd yn ôl i grŵp llywio 'craidd' gydag aelodaeth draws-sector. Awgrymodd y cyfranogwyr fod cael grŵp 'craidd' sy'n arwain cyfarfodydd strategaeth, gyda grwpiau gwaith neu grwpiau mater (thema) yn datblygu mentrau rhwng cyfarfodydd strategaeth, yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd yn hollbwysig sicrhau llif cyson o wybodaeth, arweiniad ac adrodd rhwng grŵp arweiniol y strategaeth a'r is-grwpiau â thema (yn ogystal â rhwng gwahanol is-grwpiau) i sicrhau bod y cydweithrediad a'r gweithgareddau o'i fewn yn parhau i weithio tuag at ddiben cyffredin.

# Cefnogi capasiti a chysondeb y gweithlu

Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy her cyflawni trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi cydweithredu amlsector a gweithredu cymunedol, yn enwedig pan mae capasiti staff (ar draws sectorau) yn gyfyngedig a throsiant yn uchel. Tynnodd mynychwyr sydd â chefndir yn y byd academaidd sylw at yr heriau sy'n wynebu cydweithredu llwyddiannus o ystyried trosiant uchel ymhlith staff oherwydd cylchoedd cyllido blynyddol sy'n ei gwneud hi'n anoddach dal gafael ar staff yn yr hirdymor. Pwysleisiodd mynychwyr o sefydliadau trydydd sector fod angen symud oddi wrth gostio gwasanaethau gan dalu staff ar gyfraddau'r isafswm cyflog, a ddisgrifiwyd ganddynt fel hwyluso 'ras i'r gwaelod, ymddygiad gwael' a gostyngiad yn ansawdd gwasanaethau.

Darparodd y cyfranogwyr enghreifftiau o gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion o'r fath, llawer ohonynt yn ymwneud â defnyddio gwahanol fecanweithiau ariannol a drafodir yn yr adran nesaf, gyda ffocws penodol ar gymorth i'r gweithlu. Er enghraifft, soniodd y cyfranogwyr am awdurdodau lleol yn denu cyllid i gynyddu eu gweithlu a'u capasiti staffio er mwyn cydweithredu'n well yn y gymuned. Bu eraill yn trafod datblygu ymrwymiadau cyffredin ymhlith arianwyr/comisiynwyr a derbynyddion grant i dalu cyflog byw. Yn ogystal, amlygwyd pwysigrwydd ceisio/darparu cyllid i gefnogi costau staffio craidd fel rhywbeth hollbwysig, o ystyried tuedd i ganolbwyntio ar wariant materol, mwy gweladwy, gydag effeithiau haws i dystiolaethu, ond yn aml yn llai defnyddiol ar gyfer cydweithredu effeithiol na chapasiti a chysondeb y gweithlu.



# 3a: Mecanweithiau ariannol

## Adolygu canfyddiadau

Mae'r drydedd is-adran hon yn canolbwyntio ar y trydydd categori a'r olaf yn Ffigur 5: ‘mecanweithiau ariannol’. Mae hyn yn cyfeirio at ddulliau ariannu gwaith neu fentrau mewn ffyrdd sy'n cefnogi cydweithredu amlsector. Nid yw'n syndod bod adnoddau ariannol yn cael eu nodi'n gyffredin fel galluogwyr neu rwystrau rhag cydweithredu amlsector effeithiol. Fodd bynnag, roedd y **ffynonellau a adolygwyd yn pwysleisio pwysigrwydd sut roedd cyllid yn cael ei strwythuro, yn benodol, ar gyfer penderfynu a oedd cydweithredu'n cael ei gefnogi, a pha fath**. Rydym wedi grwpio'r mecanweithiau ariannol ar gyfer cefnogi cydweithredu a nodwyd yn bum categori gwahanol, gan ddechrau gyda chanfyddiadau sy'n fwy perthnasol i arianwyr a chomisiynwyr ac yna symud ymlaen at ganfyddiadau sy'n fwy perthnasol i gynghorau, grwpiau neu sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, neu grwpiau anffurfiol a dinasyddion unigol.

## Cyllid grant



Amlygodd cyfran sylweddol o'r dystiolaeth a adolygwyd bwysigrwydd cynlluniau ariannu hyblyg nad ydynt yn gystadleuol, heb eu targedu, nad ydynt yn peryglu cyllid sefydlog, hirdymor, i gefnogi cydweithredu a gweithredu cymunedol (Coutts et al., 2020; Davidson et al., 2020; Lloyd Jones and Holtom, 2021; Volunteer Scotland, 2020). Mae'r ‘hyblygrwydd’ hwn yn cynnwys sicrhau bod cyllid ar gael i grwpiau anghorfforedig, a hwylusodd feysydd gweithredu cymunedol cwbl newydd yn ystod y pandemig ac a roddodd iddynt y cyfreithlondeb a'r gefnogaeth a oedd yn aml yn hanfodol i gydweithredu'n effeithiol â'r sector cyhoeddus (Havers et al., 2021; Tiratelli and Kaye, 2020). Fe wnaeth mwy o hyblygrwydd o ran gwariant grant ganiatáu am dalu costau craidd megis staffio ac amser, sy'n hanfodol ar gyfer cefnogi cydweithredu (e.e., Senedd Cymru, 2021). Yn ogystal, fe wnaeth mabwysiadu prosesau gwneud penderfyniadau treigl gyflwyno hyblygrwydd o ran amserlenni sydd ei angen yn aml wrth sefydlu gwaith cydweithredol (Taylor Collins et al., 2021). Roedd gwyriadau eraill oddi wrth ‘ariannu fel arfer’ yn cynnwys ymrwymiadau i ddatganoli penderfyniadau ariannu, yn enwedig trwy drosglwyddo pŵer gwneud penderfyniadau ar gyllid i'r cymunedau yr effeithir arnynt (e.e., SG, 2022).

# Comisiynu a chontractio

Roedd hwn yn faes arall lle cafodd dulliau amrywiol effaith sylweddol o ran a oedd cydweithredu amlsector yn cael ei gefnogi ai peidio. Roedd amrywiaeth o ddulliau comisiynu cydweithredol yn arbennig o effeithiol, y cyfeirir atynt weithiau fel comisiynu ar y cyd, cymunedol, seiliedig ar le, neu bartneriaeth (Gilburt and Ross, 2023; NDTi, 2023). Yma, mae comisiynu yn cymryd mwy o rôl 'hwyluswr' neu 'gysylltydd', gan ganolbwyntio ar gynllunio cydweithredol ar lefel leol, integreiddio darpariaeth, a blaenoriaethu nodau lefel system. Er enghraifft, 'comisiynu strategol' y GIG – contractio ar sail deilliannau i gymell buddsoddiad mewn dulliau ataliol (GIG, 2020).

Roedd cyllidebu cyfranogol yn ddull arall a oedd yn cefnogi cydweithredu amlsector drwy gynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau am wariant cyhoeddus (Lent and Studdert, 2021). Er enghraifft, yng Nghasnewydd, mae wedi cael ei ddefnyddio gan y cyngor, y bwrdd iechyd a phartneriaid ehangach i ymgysylltu â thros 500 o bobl i gynnig syniadau a phleidleisio arnynt, gan weithio tuag at ystod o nodau o hyrwyddo cymunedau diogel ac iechyd a lles i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'r argyfwng hinsawdd (**Gweler Atodiad 3, astudiaeth achos 53**).

Yn gyffredinol, yn yr un modd â rhoi grantiau, ystyriwyd bod comisiynu sy'n gofyn am, yn cydnabod, yn ffafrio, ac yn cynnwys cydweithredu yn hanfodol i wrthweithio'r duedd i sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol (ac yn gynyddol awdurdodau lleol) gystadlu am gyllid yn lle cael eu hannog i gydweithredu (e.e., Young and Goodall, 2021).

# Adeiladu cyfoeth cymunedol

Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn cydweithredu a gweithredu cymunedol drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi sy'n cadw cyfoeth yn lleol. Er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn 'mentrau bach a chanolig' a 'mentrau cymdeithasol' lleol drwy gaffael blaengar neu gronfeydd buddsoddi cymunedol (Alakeson and Brett, 2020; Archwilio Cymru, 2023; Henderson et al., 2021).

Mae 'Cronfa Buddsoddi Cymunedol' Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cefnogi adeiladu cyfoeth cymunedol drwy ddarparu cyllid benthyciadau buddsoddi cymdeithasol i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru. At hynny, mae nifer o sefydliadau (e.e., y Building Communities Trust) yn galw am 'Gronfa Cyfoeth Cymunedol' newydd i ddarparu cyllid hyblyg, hirdymor ar gyfer sefydliadau cymunedol gan ddefnyddio arian a ryddhawyd gan Ddeddf Asedau Segur 2022 (**BCT, 2023**). Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar sut y dylid defnyddio'r cronfeydd hyn (fel yn Lloegr yn 2023).

Mewn mannau eraill yn y DU, mae ardaloedd lleol penodol wedi datblygu modelau adeiladu cyfoeth cymunedol, megis yn Preston, lle mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyflog byw go iawn, banc datblygu cymunedol, a pholisïau caffael cyhoeddus penodol (Archwilio Cymru, 2023).

# Isadeiledd ac ystadau




Mae'r categori hwn yn cynnwys amrywiaeth o ffyrdd o ariannu neu fuddsoddi mewn gwaith sector cyhoeddus-cymunedol sy'n gysylltiedig ag isadeiledd ac ystadau. Er enghraifft, cynhyrchu incwm o ystadau lleol a'i ailfuddsoddi, neu sicrhau defnydd effeithlon o adeiladau i leihau tanddefnyddio.

Amlygwyd Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol gan nifer o ffynonellau, yn ymwneud â throsglwyddo perchnogaeth ar dir neu adeiladau cyhoeddus i gymunedau. Roedd data'n pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i awdurdodau lleol ymgysylltu â chydweithredu a chefnogaeth barhaus, yn hytrach na dim ond trosglwyddo atebolrwydd a chyfrifoldeb am asedau i gymunedau (Archwilio Cymru, 2023; Lent and Studdert, 2021).

Anelodd Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol at berchnogaeth a rennir ar dir a chartrefi, ochr yn ochr ag amrywiaeth o fodelau cynllunio eraill a arweinir gan y gymuned, tai cydweithredol, ac ymddiriedolaethau cymunedol sy'n trefnu eu hunain (McGowan et al., 2020). Er enghraifft, canolbwyntiodd prosiectau 'Skyline' y Rhondda a'r Cymoedd ar berchnogaeth tir cymunedol i gyflawni amrywiol nodau iechyd, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Roeddent yn hwyluso cynllunio tymor hwy o gymharu â grantiau traddodiadol ac yn defnyddio'r dirwedd ffisegol fel sail ar gyfer gweithredu ar y cyd trwy bartneriaethau, sefydliadau angori a chyfarfodydd cymunedol (Baker, 2022).

# Codi arian




Roedd codi arian yn ffordd hanfodol o ariannu ymdrechion cydweithredol a oedd yn cefnogi gweithredu cymunedol, yn enwedig ar gyfer prosiectau neu fentrau ar raddfa lai neu lai ffurfiol (Havers et al., 2021; Lloyd Jones and Holtom, 2021; Tiratelli and Kaye, 2020). Roedd dulliau codi arian cyffredin yn cynnwys cyllido torfol, rhoi'n lleol, rhoddion corfforaethol neu breifat, a digwyddiadau cymunedol fel rhedeg rasys neu werthu cacennau. Er enghraifft, chwaraeodd cyllido torfol ran hanfodol ym Maesgeirchin, ar gyrion Bangor, i helpu i dalu am hanfodion i bobl heb arian yn ystod y pandemig (6). Roedd hyn yn adleisio enghreifftiau o lawer o gymunedau eraill lle ariannwyd gweithredu cymunedol anffurfiol mewn ffyrdd amrywiol a chreadigol (10; Lloyd Jones and Holtom, 2021; Stewart, 2021; Tiratelli and Kaye, 2020).

### Tystiolaeth cyn-bandemig

Yn y llenyddiaeth cyn-bandemig, roedd digon o dystiolaeth am bwysigrwydd ariannu, comisiynu a buddsoddi. Unwaith eto, pwysleisiodd ffynonellau bwysigrwydd manylion y gwahanol fecanweithiau ariannol wrth benderfynu p'un a gefnogir cydweithredu. Yn benodol, amlygwyd yr angen am fuddsoddi hirdymor, cyllid ar gyfer costau craidd a chapasiti; ariannu a chomisiynu sy'n seiliedig ar systemau, yn seiliedig ar le, ac yn seiliedig ar asedau; a symud penderfyniadau ariannu i gymunedau.

# 3b: Mecanweithiau ariannol

## Canfyddiadau'r gweithdy

Bu'r rhai a fynychodd y gweithdy yn myfyrio ar y categorïau uchod o 'fecanweithiau ariannol' a nodwyd yn yr adolygiad tystiolaeth cam 1. Roedd y manylion a gasglwyd o drafodaethau'r mynychwyr yn dangos bod eu profiadau'n **adleisio** llawer o'r dystiolaeth hon ond hefyd **yn ei herio** ac yn **ychwanegu** ati trwy ddarparu manylion cyd-destunol ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, pryd a ble.

Drwy gydol trafodaethau'r gweithdy ar fecanweithiau ariannol, cafwyd cytundeb ar draws y sectorau y dylai'r mecanweithiau hyn ganiatáu i'r rhai sy'n ymwneud â chydweithredu amlsector weithio tuag at eu diben cyffredin dros y tymor hir. Crybwyllwyd yn aml hefyd fod hyblygrwydd a chymesuredd mecanweithiau ariannol yn bwysig, yn enwedig yn gysylltiedig â chyllid grant. Er enghraifft, cynnig 'lefelau' gwahanol o grantiau gyda gofynion logistaidd amrywiol yn seiliedig ar faint ac aeddfedrwydd y sefydliad. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o sectorau amrywiol (gyda phwyslais arbennig ar sefydliadau trydydd sector) y dylai adnoddau ariannol gael eu llywio gan yr hyn sydd ei angen ar gymunedau yn hytrach na chanfyddiadau pobl eraill mewn rolau strategol neu ranbarthol.



# Cyllid grant

Cododd sawl un a oedd yn bresennol bwysigrwydd cyllid sy'n hyblyg ac yn gymesur, gan alluogi a chefnogi sefydliadau llai a thrydydd sector i gyflawni eu nodau heb eu gorlwytho. Bu sefydliad elusennol yn trafod yr ymchwil y maent wedi'i wneud ar eu modelau ariannu, a ganfu fod grantiau anghyfyngedig, ynghyd â rhaglen deilwredig o feithrin gallu, yn gweithio'n dda ar gyfer grwpiau cymunedol. Adleisiwyd y safbwynt hwn gan fynychwyr o gefndiroedd ymchwil gymunedol gyfranogol, gan bwysleisio'r angen am osgoi bod yn 'rhy rhag-benodedig' am gyllid ac, yn hytrach, bod yn ymatebol i'r anghenion a nodwyd mewn cydweithrediad. Canmolodd sawl cyfranogwr o gefndiroedd ymchwil a llywodraeth leol gyllid a all addasu i wahanol fathau o gydweithrediadau. Un enghraifft a ddyfynnwyd oedd Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sydd wedi'i rannu'n lefelau dyfarniad micro, is, canolig ac uwch. Ystyriwyd bod y model ariannu hwn yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn cydnabod gwahaniaethau mewn aeddfedrwydd cydweithredu ac anghenion gwahanol. Pwysleisiodd y rhai a fynychodd y gweithdai ymhellach fod angen i amodau grant ar gyfer grantiau bach osgoi bod yn 'or-feichus'.

Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfranogwyr y gweithdy na ddylai cyllid hyblyg a chymesur ddod ar draul cyllid tymor hwy a symiau mwy o arian. Mae canfyddiadau'r gweithdy yn cyd-fynd â thystiolaeth ar yr angen am gyfleoedd ariannu tymor hwy i gefnogi gweithredu cymunedol cydweithredol. Bu rhai grwpiau'n trafod rhwystredigaeth 'cael rhywbeth da ar waith' chwe mis tuag at ddiwedd y ddarpariaeth ariannu, a gorfod canolbwyntio ymdrechion ar geisio cyllid parhad, sy'n tynnu sylw rhag canolbwyntio ar fuddion y gwasanaeth. Hefyd, mynegodd cyfranogwyr rwystredigaeth ynghylch yr heriau o ran sicrhau cyllid dilynol, hyd yn oed pan fydd mentrau a gwasanaethau wedi bod yn llwyddiannus. Tynnodd cyfranogwyr o gefndiroedd trydydd sector cenedlaethol sylw at fanteision posibl caniatáu i arian gael ei ddwyn ymlaen (mewn achosion o danwariant sefydliadol) er mwyn osgoi gwneud penderfyniadau dan bwysau o fewn y flwyddyn ariannu. Teimlent y byddai hyblygrwydd o'r fath hefyd yn cefnogi parhad gwasanaeth.

At hynny, ystyriwyd bod symiau isel iawn o arian grant yn broblemus. Er enghraifft, soniodd mynychwr o awdurdod lleol ei fod yn aml yn dewis peidio â rhannu cyfleoedd grant penodol gyda'r grwpiau cymunedol y maent yn gweithio gyda nhw, gan nad yw am roi baich arnynt pan mae'r swm mor isel (tua £500-£1000). Yn gysylltiedig â hyn, bu rhai cyfranogwyr yn trafod a ddylai fod yn ofynnol i sefydliadau sy'n cael grantiau dalu'r cyflog byw i'w staff, gan fod mwy o 'adwaith' wedi bod yn ddiweddar o ran bod grwpiau cymunedol yn talu cyflogau isel i staff. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y byddai hyn yn gofyn am sgwrs rhwng arianwyr a sefydliadau cymunedol i asesu dichonoldeb, gan y byddai angen codi trothwyon grant yn briodol – roedd y symiau isel o arian sydd ar gael yn nodweddiadol yn cael eu hystyried yn annigonol i dalu cyflogau byw i staff.

# Comisiynu a chontractio

Pwysleisiodd cynrychiolwyr o bob sector fod dyraniadau cyllid sy'n cael eu gyrru gan yr hyn sydd ei angen ar gymunedau – nid gan yr hyn y mae'r 'system' yn ei gredu sydd ei angen (h.y. penderfyniadau a wneir gan benderfynwyr/arianwyr rhanbarthol neu genedlaethol) – yn gweithio'n dda i feithrin cydweithredu. Dro ar ôl tro, cyfeiriodd grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr y trydydd sector yr ymddiriedaeth a roddir mewn cymunedau, yn hytrach na'u 'profi', gyda chyfrifoldeb am bennu meysydd ffocws drwy gydol y pandemig. Nodont hefyd y parodrwydd cynyddol gan gynghorau i gyfuno adnoddau fel enghraifft o'r dull cydweithredol hwn.

Ystyriwyd hefyd fod grymuso arweinydd lleol yn uniongyrchol ag awdurdod i wneud penderfyniadau dros ddyrannu cyllid yn effeithiol o ran cefnogi cydweithredu amlsector, yn hytrach na 'dull gweithredu â chyfyngiad amser, sy'n canolbwyntio ar y pot arian'. Pwysleisiodd cyfranogwr a oedd yn gweithio ar lefel corff statudol fod hyn yn galluogi deilliannau cadarnhaol na fyddent o bosibl wedi'u cyflawni gyda dull ariannu grant traddodiadol, drwy hwyluso gweledigaeth hirdymor a dealltwriaeth ddyfnach o'r ardal leol. Yn gysylltiedig â hyn roedd ymagweddau cydweithredol at 'ddadansoddi bylchau', y disgrifiodd cyfranogwyr y gweithdy o gefndir llywodraeth leol eu bod yn ddefnyddiol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ariannu neu gomisiynu, er enghraifft, trwy arolygon cymunedol i benderfynu lle gallai cyllid wneud y gwahaniaeth mwyaf. Amlygodd enghraifft o ddadansoddiad bylchau a ddefnyddiwyd gan 'Dîm Cymunedol' mewn llywodraeth leol yng Nghymru fod dinasyddion a chymunedau eu hunain yn barod iawn i helpu i nodi'r bylchau hynny.

Hefyd, cafodd contractio cynghrair a chyllidebu cyfranogol eu codi fel dulliau mwy cydweithredol o gomisiynu a oedd wedi dangos addewid wrth gefnogi cydweithredu amlsector. Disgrifiodd y cyfranogwyr enghreifftiau o gontractio cynghrair sy'n cefnogi cydweithredu amlsector ynghylch nod cyffredin trwy drefniant cytundebol sy'n dibynnu ar sicrhau bod gan bob sefydliad sy'n ymwneud â chydweithrediad rôl gyfartal o ran gwneud penderfyniadau wrth ddarparu gwasanaethau. Er bod safbwyntiau cymysg am ddefnyddio cyllidebu cyfranogol i gefnogi cydweithredu, roedd enghreifftiau o arfer da yn cynnwys ei ddefnyddio mewn awdurdodau lleol sydd â pherthnasoedd datblygedig â chymunedau lleol, er enghraifft drwy rolau penodol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfranogwyr o gynghorau lleol a'r rhai sy'n gweithio ar lefel ranbarthol y gall perthnasoedd a deinameg pŵer presennol lesteirio cyllidebu cyfranogol effeithiol, gyda pherthnasoedd hanesyddol dda neu wael yn dylanwadu ar benderfyniadau ariannu.

Er gwaethaf cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd osgoi dulliau 'o'r brig i lawr' o benderfynu sut ac at beth mae cyllid yn cael ei ddarparu, tynnodd un cyfranogwr â rôl strategol lefel genedlaethol sylw at y ffaith y gall amodau ariannu penodol fod yn effeithiol, i raddau, wrth 'orfodi' pobl i gydweithredu at ddiben cyffredin. Rhoddasant yr enghraifft o nodi mai dim ond os bydd y gwaith yn digwydd ar sail ranbarthol y gellir cael mynediad at gyllid, fel modd o annog pobl i weithio mewn partneriaeth. Yn eu profiad nhw, gall hwn fod yn gam cychwynnol cadarnhaol tuag at gydweithredu na fyddai o bosibl wedi digwydd fel arall, ac mae'n arwain at feithrin perthynas, maes o law. Fodd bynnag, cydnabuont nad yw hyn o reidrwydd yn cyd-fynd â'r nod o 'ddatblygu diben cyffredin'.

# Isadeiledd ac ystadau

Siaradodd cyfranogwr sydd â chefndir mewn llywodraeth leol am grŵp cyllid cyfalaf arloesol a sefydlwyd gan y cyngor i reoli asedau cyfalaf. Mae'r grŵp wedi creu cofrestr asedau o'r holl gyfalaf yn y sir ac mae'n ceisio addasu mannau megis llyfrgelloedd a hen adeiladau swyddfa at ddiben cynnig hybiau a chyfleusterau byw â chymorth yn y gymuned. Trafodwyd hefyd fod trosglwyddo asedau cymunedol yn ddefnyddiol ar gyfer cydweithredu os caiff y trosglwyddo ei wneud yn dda, ond mae'n llai effeithiol os yw'n or-gymhleth. Enghraifft o arfer da a godwyd yn y gweithdy oedd trosglwyddo ased yn ymwneud â throsi adeilad sy'n eiddo i'r cyngor yn fenter gydweithredol gymunedol. Yn allweddol i hyn oedd bod yr unigolyn a oedd yn arwain y broses o drosglwyddo'r ased yn gyn-weithiwr cyngor gyda chysylltiadau a gwybodaeth bresennol am y gymuned a sut roedd y 'system' yn gweithio.



# 3c: Mecanweithiau ariannol ychwanegol

Nododd y rhai a fynychodd y gweithdy hefyd gamau gweithredu sy'n cefnogi cydweithredu amlsector o ran mecanweithiau ariannol, gan ategu'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad cam un o dystiolaeth bresennol.

## Cynnull adnoddau



Teimlai sefydliadau elusennol ei bod hi'n bwysig ystyried sut i gynnull actorion ag adnoddau neu gyllidebau ar y cyd er mwyn osgoi darnio neu ddyblygu ymdrechion. Yn lle hynny, fe wnaethant ddadlau o blaid gweithio tuag at nodau cyffredin gydag adnoddau mwy cyfunol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cronni adnoddau o brosiectau presennol a'u hailgyfeirio tuag at fentrau cydweithredol. Yn ganolog i'r dull hwn oedd adlinio adnoddau presennol yn hytrach na cheisio ailddyfeisio'r olwyn trwy greu prosiectau newydd ar eu pen eu hunain. Yn ogystal, amlygodd nifer o gyfranogwyr y gweithdai gyfleoedd sy'n gysylltiedig â cheisio neu ddarparu cymorth 'mewn nwyddau' (nad yw'n ariannol). Er enghraifft, awdurdod lleol sy'n darparu adeilad i wasanaeth sector cymunedol weithredu ohono; Cyngor Gwirfoddol Sirol sy'n cynorthwyo sefydliadau trydydd sector neu gymunedol â Thystysgrifau Datgelu a Gwahardd; neu gallai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â phartneriaethau traws-sector sefydledig gysylltu sefydliadau a/neu wasanaethau cyhoeddus â'i gilydd i rannu cymorth arbenigol mewn meysydd penodol. Mae'r dull hwn yn cydnabod bodolaeth gwybodaeth a phrofiad o fewn y system ehangach i gefnogi cydweithredu, trwy adnoddau sydd eisoes wedi'u sefydlu y gellir eu cynnull i gefnogi gwaith cydweithredol er mwyn gwella lles cymunedol.

Fodd bynnag, bu'r rhai a fynychodd y gweithdy o gefndiroedd llywodraeth leol hefyd yn myfyrio ar heriau'n gysylltiedig â chynnull adnoddau. Er enghraifft, amlygont fod y gofynion arian cyfatebol o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) yn her o ran adnoddau i lywodraethau lleol ledled Cymru. Mae'r gofynion hyn yn cwmpasu arian cyfatebol ariannol (cyfraniadau ariannol uniongyrchol o gronfeydd craidd neu wasanaethau grant eraill nad ydynt yn dod o fewn Llywodraeth Cymru) a chyfraniadau adnoddau ehangach (amser staff, amser gwirfoddolwyr, a'r defnydd o gyfleusterau).

## Adrodd effaith

Amlygodd sawl grŵp yr heriau o ran casglu neu adrodd am effaith mewn cyd-destunau wedi'u nodweddu gan amser ac adnoddau cyfyngedig, sy'n nodweddiadol o ddarpariaeth gwasanaethau cymunedol. Roeddent hefyd yn awgrymu bod angen archwilio dulliau amgen o ddal a chyfleu 'effeithiau anweledig' – sef deilliannau llai mesuradwy yn uniongyrchol, megis newid diwylliannol neu systemau. Cynigiodd cyfranogwyr o gefndiroedd ymchwil y byddai gweithio gyda chyllid ymatebol sy'n gysylltiedig â dysgu ailadroddol parhaus mewn amgylchedd cydweithredu amlsector yn fuddiol. Awgrymodd eraill o gefndiroedd llywodraeth leol ddull mwy safonedig o rannu astudiaethau achos 'llwyddiannus' o gydweithredu, er enghraifft drwy hwyluso a darparu pecynnau cymorth. Pwysleisiwyd bod cefnogaeth i ddangos effaith yn hanfodol er mwyn helpu cymunedau i sicrhau cyllid tymor hwy.



| | **Gweithgareddau ar gyfer datblygu diben cyffredin:** Gweithgareddau sy'n cefnogi cydweithredu amlsector trwy ddatblygu nodau/dealltwriaeth gyffredin | **Trefniadau llywodraethu:** Rolau, cyfrifoldebau, prosesau a strwythurau a ddatblygwyd i gefnogi cydweithredu amlsector | **Mecanweithiau ariannol:** Ymagweddau ar gyfer ariannu gwaith/mentrau mewn ffyrdd sy'n cefnogi cydweithredu amlsector |
|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu o'r adolygiad cam un o dystiolaeth bresennol** | **Casglu gwybodaeth** (ymchwil gymunedol, ymarferion gwrando, digwyddiadau ymgysylltu) | **Rolau cyswllt/ cydlynu a llwybrau atgyfeirio** (e.e., mewn/ar draws ALlau, trydydd sector, gwasanaethau cyhoeddus) | **Cyllid grant** (hyblyg, hirdymor, cyfranogol) |
| | **Meddwl a mapio systemau** (mapio materion i nodi'r achosion sylfaenol a nodau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â nhw) | **Cyfrifoldebau a ffiniau** (cytundeb ar y cyd ynghylch cwmpas cyfrifoldebau gwahanol bartneriaid) | **Comisiynu** (cydweithredol/ strategol/seiliedig ar le/seiliedig ar ddeilliannau) |
| | **Cynllunio hirdymor a macro-nodau** (dogfennau hyblyg, byw yn amlinellu camau tuag at nodau cyffredin) | **Arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd** (e.e., grwpiau llywio amrywiol, esblygol, sy'n seiliedig ar werthoedd) | **Adeiladu cyfoeth cymunedol** (caffael; cronfeydd buddsoddi/ cyfoeth) |
| | **Hyfforddiant/ dysgu ar y cyd** (digwyddiadau, cynadleddau, cymunedau ymarfer, gweminarau, 'cinio a dysgu', hyfforddiant, adnoddau) | **Polisïau a gweithdrefnau** (e.e., prosesau/gofynion wedi'u ffurfioli ar lefel sefydliadol neu ar lefelau ehangach) | **Isadeiledd ac ystadau** (trosglwyddiadau asedau cymunedol, ymddiriedolaethau tir, ad-drefnu ystadau) |
| | **Cyfuno a rhannu gwybodaeth** (platfformau ar-lein, rhestri/cyfeiriaduron, cronfeydd data, mapio asedau) | **Cyrff neu isadeileddau rhanbarthol/ cenedlaethol** (creu neu ddefnyddio'r rhain i gydlynu/cefnogi ymdrechion) | **Codi Arian** (Cyllido Torfol, Rhoi'n Lleol, rhoddion preifat) |
| **Camau gweithredu ychwanegol o drafodaethau gweithdy cam dau** | **Diffinio deilliannau a sut i'w mesur nhw** (cytuno sut gallai nodau cyffredin drosi'n ddeilliannau/ effeithiau a sut i fesur y rhain) | **Is-grwpiau cydweithredu â ffocws** (is-grwpiau i aelodau cydweithredu ganolbwyntio ar feysydd arbenigedd a diddordeb) | **Cynnull adnoddau**(cyfuno cyllidebau/capasiti; cymorth mewn nwyddau; cyfnewid sgiliau/gwybodaeth) |
| | **Goruchwyliaeth ar y cyd i gydlynu gwasanaethau** (mecanweithiau amlsector i gydlynu darpariaeth gwasanaethau, sy'n datblygu blaenoriaethau cyffredin) | **Cefnogi capasiti a chysondeb y gweithlu** (cyflog byw, cost graidd a chyllid hirdymor) | **Adrodd effaith**(astudiaethau achos a straeon; offer safonedig; cipio effeithiau anweledig) |

**Ffigur 6: Camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu cydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol (a nodwyd yn adolygiad tystiolaeth cam un a gweithdy cam dau)**

# Casgliad


Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o adolygiad o dystiolaeth a gyhoeddwyd ers dechrau pandemig Covid-19 ar sut mae cydweithredu amlsector yn dylanwadu ar weithredu cymunedol. Daw'r dystiolaeth o (a) astudiaethau achos seiliedig ar ymarfer ar draws pob rhanbarth o Gymru; (b) llenyddiaeth lwyd yn y DU (e.e., adroddiadau a blogiau seiliedig ar ymarfer); ac (c) llenyddiaeth academaidd. Yn ogystal, mae'n cynnwys mewnwelediadau o grynodeb o dystiolaeth cyn-bandemig gan bartneriaid ym Mhrifysgol Leeds Beckett. Yn hollbwysig, mae'r adroddiad hefyd yn ymgorffori canfyddiadau o weithdy rhyngweithiol lle bu amrywiaeth eang o gyfranogwyr o gyd-destunau polisi ac ymarfer ledled Cymru (a thu hwnt) yn craffu ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn ac yn ychwanegu atynt. Darparodd y gweithdy hwn dystiolaeth ychwanegol hanfodol seiliedig ar ymarfer a oedd yn cefnogi, yn herio, yn rhoi cyd-destun ac yn llenwi bylchau yng nghanfyddiadau'r adolygiad, gan arwain at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o gamau gweithredu pendant sy'n cefnogi cydweithredu amlsector a sut y gallent weddu i nodau a chyd-destunau cydweithredu gwahanol.

Fel y dengys y canfyddiadau uchod, nid yw'r camau hyn yn digwydd ar eu pen eu hunain nac yn cefnogi cydweithredu yn unigol. Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r trefniadau llywodraethu mwyaf datblygedig yn annhebygol o lwyddo heb fod diben cyffredin a gweithgareddau i ddatblygu'r diben hwnnw yn sail iddynt. Yn yr un modd, byddai trefniadau ariannu sy'n groes i gydweithredu yn llesteirio llwyddiant. Mae'r adolygiad tystiolaeth yn dangos bod cydweithredu amlsector effeithiol yn golygu mabwysiadu gwahanol fathau o gamau gweithredu sy'n gweddu i'r cyd-destun cydweithredu penodol ac sy'n cael eu cymryd dros gyfnodau priodol gan ystod o actorion. Mae hyn yn adlewyrchu'r modelau cydweithredu a oedd yn gyffredin yn y llenyddiaeth cyn-bandemig, sy'n disgrifio casgliadau o gamau gweithredu a gasglwyd i gyd-fynd â chyd-destunau a dibenion penodol. Gellir priodoli'r diffyg tystiolaeth ynghylch effaith neu effeithiolrwydd y modelau hyn yn rhannol i'w cyd-destun penodol a'u hargymhelliad penodol i'w haddasu i gyd-fynd â gwahanol gyd-destunau neu eu defnyddio fel sgaffald ar gyfer datblygu modelau pwrpasol.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosiect hwn a gydgynhyrchwyd (yr adolygiad tystiolaeth cam un a'r gweithdy cam dau), ein nod oedd datblygu fframwaith elfennol ar gyfer adeiladu modelau cydweithredu pwrpasol neu addasu modelau presennol. Mae'r **'fframwaith ar gyfer gweithredu'** hwn yn adeiladu ar y crynodeb o gamau gweithredu a gyflwynir yn **Ffigur 6**, gan arddangos y camau y gellir eu cymryd i gefnogi cydweithredu amlsector sy'n gwella gweithredu cymunedol a lles. Mae'n dangos sut y gallai camau gweithredu gwahanol weddu i gyd-destunau gwahanol (e.e., cydweithrediadau o aeddfedrwydd gwahanol, mewn lleoliadau gwahanol, gyda gwahanol adnoddau sydd ar gael) ac mae'n helpu i nodi sut y gallai'r camau gweithredu hyn ddod ynghyd yn ymarferol—camau gweithredu y gellir eu cymryd nawr, y rhai a all ddilyn, a sut i symud ymlaen tuag atynt. Er nad yw'r fframwaith hwn ar gyfer gweithredu yn gynhwysfawr nac yn gyflawn, gan y gallai fod llawer o gamau gweithredu a dulliau gweithredu posibl eraill ar gyfer datblygu cydweithredu amlsector, ei nod yw darparu man cychwyn defnyddiol ar gyfer penderfynu ar, a chymryd, camau pendant sy'n berthnasol i gyd-destunau penodol. Yn hytrach na dim ond disgrifio'r hyn y mae cydweithredu amlsector effeithiol yn ei olygu, ei nod yw amlinellu rhai opsiynau ar gyfer ei gyflawni.

# Atodiad 1: Dulliau adolygu tystiolaeth

